

Adran *Seicoleg*

Rhaglennu Israddedigion 2019-2020



Cynnwys

Croeso	5
Croeso gan y Llyfrgellydd Seicoleg.....	6
Croeso gan yr Adran Gyrfaeodd	7
Adran A: Cyflwyniad.....	8
Diben y llawlyfr	8
Cydraddoldeb ac Amrywioldeb	8
Dyddiadau Pwysig.....	9
Adran B: Gwybodaeth am yr Adran	10
Cyfathrebu rhwng y Brifysgol a myfyrwyr	10
Presenoldeb a Chynnydd Academaidd	10
Cwrdd â'r staff	11
Tiwtoriaid Personol.....	11
Coleg Cymraeg Cenedlaethol.....	12
Welsh Medium Study	12
Cyflwyno Aseidiadau trwy gyfrwng y Gymraeg	13
Cyflogadwyedd	13
Eich Llais: Casglu Adborth Myfyrwyr	14
Holiaduron Gwerthuso Modiwl	14
Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif.....	15
Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr	15
Adran C: Cofrestru a'ch Rhaglen	16
Cofrestru	16
Cyfrifoldebau Fisâu Myfyrwyr Haen 4	16
Achrediad.....	17
Beth yw Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS)?	17
Sylfaen Raddedig ar gyfer Aelodaeth Siartredig (GBC).....	17
Strwythurau Cynlluniau a Manylebau Rhaglenni	18
Gwybodaeth ynghylch modiwlau	18
Amserlen Academaidd.....	19
Adran D: Asesu ac Adborth	20

SgiliauAber/AberSkills.....	21
Dulliau Asesu.....	21
Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau.....	22
Absenoldeb o Arholiadau	22
Ceisiadau am Estyniad	22
Amgylchiadau Arbennig.....	22
Trefniadau Marcio a Chymedroli	25
Meini Prawf Marcio	25
Beth a ddisgwylir gan fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf, ail a thrydydd?.....	26
A fydd staff drafftiau darllen fy aseiniad i mi?	26
Canllawiau marcio	27
Cyflwyniadau llafar a Phoster Myfyrwyr	29
Blogs.....	32
Adborth.....	33
Ffyrdd Adborth	34
Arholwyr Allanol	34
Ymddygiad Academaidd Annerbyniol	35
Adran E: Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau	37
Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau	37
Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith	37
Ailsefyll.....	37
Trefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir trwy Gwrs	38
Y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr	39
Adran F: Cymorth Myfyrwyr a Gwasanaethau Lles	40
Canolfan Croesawu Myfyrwyr	40
Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian	40
Y Gwasanaeth Hygyrchedd	40
Gwasanaethau Lles Myfyrwyr	41
Cymorth Dysgu i Fyfyrwyr a'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg.....	41
Y Swyddfa Ryngwladol.....	41
Cyngor ar Fisas a Mewnfudo	42
Gwibdeithiau'r Swyddfa Ryngwladol.....	42

Wythnos Un Byd	42
Darpariaeth Halal.....	42
Mannau aml-ffydd ac ystafell weddio	42
Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr.....	43
Cymorth Llety.....	43
Adran G: Gwybodaeth y Brifysgol	44
Israddedigion	44

Ymwadiad

Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd (Rhan A: Polisiau a Gweithdrefnau a Rhan B: Rheoliadau) <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook>. Rhoddir blaenoriaeth i'r cyhoeddiadau hyn ymhob achos, ac nid oes unrhyw ran o'r llawlyfr hwn yn eu disodli. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y llawlyfr hwn yn gywir ac yn gyfredol. Er hynny, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i addasu neu ddiweddarau'r llawlyfr yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau, ond mewn achos o'r fath fe gewch wybod amdanynt gan eich adran academaidd.

Croeso



Annwyl bawb,

'Croeso i Seicoleg yn Aberystwyth' neu 'Croeso nôl i Seicoleg yn Aberystwyth'. Pa un bynnag sy'n wir amdanoch chi, rwy'n falch iawn o'ch cyflwyno chi i flwyddyn academiaidd newydd yma yn Aberystwyth - ac mae hi am fod yn flwyddyn a hanner!

Bydd myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn darganfod cyfoeth o brofiadau yma i chi yn Aber a fydd yn eich cadw'n brysur – ond cofiwch am eich gwaith academiaidd tra byddwch chi'n darganfod rhyfeddodau Aber am y tro cyntaf. Bydd myfyrwyr yr ail flwyddyn yn astudio seicoleg o ddifrif nawr, ac yn adeiladu ar eich gwybodaeth. Bydd myfyrwyr y drydedd flwyddyn yn cyrraedd uchafbwynt eich astudiaethau ac yn newid i'r gêr uchaf.

Pa bynnag flwyddyn yr ydych ynddi, mae'r tîm Seicoleg yma i'ch cynorthwyo. Bydd eich tiwtoriaid personol yn bwysig iawn eleni, ac mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn mynd i'w gweld pan fydd gofyn i chi. Fel bob amser, mae'r staff Gweinyddol a Thechnegol wrth law i'ch cyfarwyddo os oes angen, a bydd staff newydd yn ymuno â ni wrth i ni barhau i ehangu eleni, felly cadwch lygaid am hynny. Mae'r canlyniadau rhagorol yn yr ACF eleni'n gosod ein hadran ymhlith yr 20 uchaf yn y DU – cyflawniad cwbl arbennig – a byddwn yn parhau i weithio'n galed eleni i wneud yn siŵr eich bod yn cael y cymorth angenrheidiol.

Gofynnwch am gymorth os ydych ei angen – rydym wrth law, yn brofiadol ac yn dda iawn yn ein gwaith. Siaradwch â'ch tiwtoriaid a'ch darlithwyr, a minnau wrth gwrs – byddaf bob amser yn falch o'ch gweld, fel y gwyddoch – e-bostiwch ni am apwyntiad ac fe wnawn yn siŵr eich bod yn cael y cymorth angenrheidiol i lwyddo. Mae'n grêt eich cael chi nôl ac i groesawu myfyrwyr newydd hefyd. Pob dymuniad da eleni – gan obeithio y bydd hi'n flwyddyn wych!



Dr. Nigel Holt

Croeso gan y Llyfrgellydd Seicoleg



Helo a chroeso i Brifysgol Aberystwyth.

Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'ch amser yma yn Aber. Fi yw eich Llyfrgellydd Pwnc ac rwy'n gweithio yn Llyfrgell Hugh Owen, y brif Lyfrgell ar gyfer Seicoleg. Rydw i yma i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau ac yn ein hastudiaethau. Gallaf helpu gyda:

- Dod o hyd i lyfrau ac erthyglau ar gyfer eich aseiniadau
- Llyfryddiaeth a nodi
- Mynediad at adnoddau penodol ar gyfer seicoleg, megis PsycArticles

Rwyf hefyd yn rhedeg sesiwn galw heibio bob dydd Mawrth rhwng 11.30 a 13.00 yn yr adran. Mae croeso i chi ddod draw.

Cysylltwch â fi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn ag adnoddau dysgu neu am gael gafael ar wybodaeth ar gyfer eich astudiaethau, neu os hoffech chi gwrdd i fyny [ssg@aber.ac.uk/ 01970 621870]

Dolenni i lyfrgell ac adnoddau defnyddiol:

- Canllaw Llyfrgell Seicoleg
- Primo, catalog y Llyfrgell
- Tudalennau Sgiliau Gwybodaeth - canllawiau i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich astudiaethau
- Cwestiynau Cyffredin

Sarah Gwenlan
Llyfrgellydd Pwnc Seicoleg

ssg@aber.ac.uk
01970 621870
@gwenlans
FB: Gwenlan.inthelibrary

Croeso gan yr Adran Gyrfaeodd



Coeso i Brifysgol Aberystwyth ac i ddechrau pennod newydd a chyffrous yn eich bywyd.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, fel eich Ymgynghorydd Gyrfaeodd, rydw i yma i helpu a'ch cynghori ar bob cam o'ch taith cynllunio gyrfa rhag anwybyddu 'beth ddylwn i ei wneud neu beth ydw i'n ei wneud nesaf' i wneud cais am leoliadau a Swyddi.

Rwy'n darparu arweiniad gyrfaeodd un i un yn ogystal â rhoi sgysiau a gweithdai adrannol. Rwy'n cynnal sesiwn galw heibio gyrfaeodd wythnosol ar ddydd Mawrth yn yr adran Seicoleg - gallwch chi gael sgwrs am eich opsiynau gyrfa neu gael cyngor ar ddod o hyd i leoliad a phrofiad gwaith, gallaf hefyd helpu gyda'ch CV, gan adeiladu proffil LinkedIn A chwblhau ffurflenni cais a mynd am gyfweliadau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â gyrfa, yna dewch draw i weld.

Mae gan y Gwasanaeth Gyrfaeodd wasanaeth galw heibio bob dydd hefyd yn y Swyddfa Gyrfaeodd, wrth ymyl siop SU, rydyn ni'n rhedeg gweithdai sgiliau wythnosol yn ystod y tymor a sesiynau canllaw un i un bob dydd. I gadw at y gweithdai diweddaraf, digwyddiadau cyflogwyr a swyddi gwag, ymunwch â'n porth swyddi a digwyddiadau Cysylltiadau Abeyrstwyth yn www.aber.ac.uk/aberconnections

Edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan a'ch bod yn dechrau ar eich taith cynllunio gyrfa.

Anna McAdam
Ymgynghorydd Gyrfaeodd ar gyfer Seicoleg
anm43@aber.ac.uk

Adran A: Cyflwyniad

Diben y llawlyfr

Diben y llawlyfr hwn yw rhoi gwybodaeth allweddol i chi am eich astudiaethau, ac am bolisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Nid canllaw cynhwysfawr mohono, ond bydd yn rhoi rhywfaint o'r wybodaeth hanfodol y bydd ei hangen arnoch i gael gyrfa academiaidd lwyddiannus a difyr yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae rhagor o wybodaeth i gyd-fynd â'r llawlyfr hwn ar gael ar wefan y Brifysgol:

<https://www.aber.ac.uk/cy/student>

Mae ein Siarter Myfyrwyr yn amlinellu ein cyd-gyfrifoldebau a'n dyheadau. Mae ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-quality-records-office/quality-handbook/support/charter>

Os ydych yn angen unrhyw help gyda'r cynnwys o'r llawlyfr hwn, cysylltwch â'r Swyddfa Seicoleg ar psychology@aber.ac.uk

Dylai myfyrwyr gofio y bydd Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol mewn grym bob amser, boed yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations>

Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwmo i ddatblygu a hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob agwedd ar ein hymarfer a'n gweithgareddau. Ein nod yw gweithio ac astudio, gan ddarparu diwylliant cynhwysol, heb wahaniaethu, ac arddel gwerthoedd parch, urddas a chwarteisi. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Rydym yn ymroddedig i hybu cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, hil, hunaniaeth ryweddol, crefydd a chred (gan gynnwys anghrediniaeth), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ac i groesawu aml-hunaniaeth a chodi ymwybyddiaeth ar draws gwahanol grwpiau.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb 2016-2020 yn hyrwyddo cydraddoldeb a gwelliannau cydraddoldeb o fewn y Brifysgol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cynllun yn cael ei fesur trwy Adroddiadau Cynnydd a byddant ar gael yn ein adroddiadau monitro blynyddol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 (a'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb sy'n perthyn iddo) ar gael yn adran Cynlluniau ein tudalennau gwe Cydraddoldeb: <https://www.aber.ac.uk/cy/equality>

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, ycyfeiriad ebost yw equstaff@aber.ac.uk

Dyddiadau Pwysig

Mae blwyddyn academiaidd y Brifysgol yn dechrau ym mis Medi. Fe'i trefnir yn ddau semester, sy'n dod i ben ym misoedd Ionawr a Mehefin, a chaiff y rhan fwyaf o'r modiwlau eu hasesu ar ddiwedd pob semester.

Mae tri thymor yn ogystal, gyda chyfnodau o wyliau dros y Nadolig a'r Pasg.

Mae'n rhaid i bob myfyriwr llawn amser fod bresennol yn Aberystwyth yn ystod amser tymor.

Cyhoeddir dyddiadau tymor, yn cynnwys cyfnodau arholiadau yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/dates-of-term>

Adran B: Gwybodaeth am yr Adran

Cyfathrebu rhwng y Brifysgol a myfyrwyr

Mae'r cyfathrebu swyddogol rhwng y Brifysgol a'r myfyrwyr yn digwydd drwy ebost Prifysgol Aberystwyth. Os nad ydych eto wedi rhoi eich cyfrif ebost Aber ar waith, gwnewch hynny nawr drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar-lein: <https://myaccount.aber.ac.uk/open/activate/>.

Polisi'r Adran yw y bydd e-byst a dderbynnir yn ystod oriau busnes yn derbyn ymateb gyda 48 awr. Pan dderbynnir negeseuon e-bost y tu allan i oriau busnes (e.e. ar ôl 5pm, ar benwythnosau neu yn ystod cyfnodau gwyliau), byddwch yn derbyn ymateb o fewn 48 awr yn cychwyn o ddiwrnod busnes y brifysgol nesaf.

Pan fyddwch yn e-bostio staff academiaidd, dylech nodi eich enw llawn, y modiwl dan sylw ynghyd ag amlinelliad byr o'r ymholiad neu'r cwestiwn. Er mwyn i chi gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch cyn gynted â phosibl, cyn cysylltu â'r staff, dylech sicrhau nad yw eich cwestiwn wedi cael ei ateb yn rhywle arall (e.e. yn y llawlyfr hwn, yn y llawlyfr modiwlau, ar Blackboard etc).

Presenoldeb a Chynnydd Academaidd

Mae'r Brifysgol yn mynnu bod myfyrwyr yn mynychu yr holl weithgareddau ar eu hamserlen, yn cynnwys darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau ymarferol a thiworialau. Mae'n bosibl hefyd y bydd y Brifysgol neu'r adran academiaidd yn pennu gofynion presenoldeb ychwanegol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fframwaith ar gyfer monitro cynnydd a phresenoldeb myfyrwyr fel rhan o'i chyfrifoldeb i ofalu am fyfyrwyr unigol. Os yw eich presenoldeb a'ch cynnydd yn anfodhaol, bydd eich adran academiaidd yn cysylltu a byddwch yn cael gwahoddiad i egluro'r sefyllfa. Er mai estyn cymorth yw prif amcan y weithdrefn monitro cynnydd academiaidd, mae'n bosibl y cymerir camau disgyblu mewn achosion lle nad yw ymdrechion i wella'r sefyllfa wedi arwain at welliant mewn presenoldeb a chynnydd. Mewn achosion o'r fath, gall adrannau argymhell bod myfyrwyr yn cael eu diarddel o'r Brifysgol

Gweler y manylion llawn yn y Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd:

<https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/regulations/academic-progress/> .

Yn Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd, mae presenoldeb yn cael ei montiro yng nganolog dros y tri adran (ADGD, IBERS a Seicoleg). Rydyn yn wneud hyn fel rhan o'r cyfrifoldeb sydd gyda'm at cymorth a dargadwad myfyrwyr.

Byddwn yn monitro presenoldeb bob pythefnos trwy'r semester ac os fydd myfyriwr yn syrthio o dan y drothwy ar gyfer presenoldeb yna fydd ebost yn cael ei danfon allan yn awtomatig.

Fydd yr ebost hyn yn gofyn i chi rhoi rheswm am y canran presenoldeb. Pan rydych yn ymateb i'r ebost hyn yna wnewch yn siwr ddim i ddanfôn amylchiadau arbennig ne urnhyw tystoliaeth sydd yn cefnogi eich absenoldeb.(dylai hwn cael ei danfôn at eich adran [trwy](#) defnyddio'r ebost fels-sc-ext@aber.ac.uk

Nid yw'r system monitro presenoldeb yn cymryd fewn i ystyried unrhyw rhesymau rydych wedi nod ar eich Cofnod Myfyriwr. Os yw eich absenoldeb oherwydd problem gyda'r amserlen, yna wnewch yn siwr i nodi'r modiwlau na wnaethoch mynchu neu cafodd ei symud ar yr ebost i sicrhau bod yr adran a'r cydlynnydd modiwl yn gallu datrys y problem.

Sylwer, er bod y prif ffocws o fonitro presenoldeb academiaidd ar gefnogaeth a chadw myfyrwyr, gallai fod risg o gamau disgyblu lle mae'ch presenoldeb yn parhau'n anfoddfaol ac ni wnaed unrhyw ymgais i ddatrys y sefyllfa. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellid cymhwysio argymhellion i wahardd myfyrwyr.

Cwrdd â'r staff

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am staff yr adran, gan gynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau ar dudalen we'r adran: <https://www.aber.ac.uk/cy/psychology/staff-profiles>

Tiwtoriaid Personol

Bydd Tiwtor Personol yn cael ei neilltuo i bob myfyriwr israddedig. Mae gan y Tiwtoriaid Personol ran bwysig i'w chwarae yn y fframwaith cyffredinol sy'n cynnal y myfyrwyr a'u datblygiad personol yn y Brifysgol. Maent yn hollbwysig o ran helpu'r myfyrwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynllunio eu datblygiad personol (CDP) eu hunain, defnyddio'r adnoddau a'r cyfleoedd a ddarperir gan y Brifysgol yn effeithiol, a chymhathu'r holl ddysgu sy'n rhan o brofiad y myfyrwyr.

Dylai'r Tiwtor Personol fod yn un o'r manau cyswllt cyntaf rhwng y myfyrwyr a'r adran academiaidd, a dylai fod ar gael i gael sgwrs ar adegau rhesymol, a lle y bo'n briodol dylai gyfeirio'r myfyrwyr i gael cyngor arbenigol.

Caiff israddedigion llawn amser gyfle i gwrdd â'u Tiwtor Personol o leiaf bum gwaith yn y flwyddyn gyntaf, o leiaf bedair gwaith yn yr ail flwyddyn, ac o leiaf dair gwaith yn y drydedd/bedwaredd flwyddyn.

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-quality-records-office/quality-handbook/support/tutors>

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio'n agos â'r Coleg i ddatblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg yn Aberystwyth. Mae mwy o wybodaeth am weithgareddau academaidd a chymdeithasol y Gangen, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr wrth ddod yn aelodau o'r Coleg, ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/cc>

Welsh Medium Study

Ar gyfer y rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, neu'r rhai a fyddai'n teimlo'n fwy cyfforddus yn sgwrsio yn y Gymraeg, mae cyfleoedd niferus i atgyfnerthu eich dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn ei chael hi'n haws i drafod a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Prifysgol Aberystwyth ac mae'r adran yn cael ymrwymiad cryf i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, mae'r Sefydliad yn datblygu addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y byddwch yn cael y dewis o gofrestru ar gyfer modiwlau a ddewiswyd / seminarau yn Gymraeg. Bydd manylion pellach yn cael ei egluro wrth gofrestru. Mae'r modiwlau mae'r Adran yn cynnig ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg yw:

Blwyddyn 1

Modiwl	Teitl Modiwl	Fersiwn Saesneg	Credits	Tymor
SC11300/11320	Cyflwyniad I Seicoleg: Ymchwiliad A Chyfathrebiad	PS11300/11320	20	1 & 2

Blwyddyn 2

Modiwl	Teitl Modiwl	Fersiwn Saesneg	Credits	Tymor
SC20600/20620	Seicoleg Mewn Gweithred	PS20600/20620	20	1 & 2

Blwyddyn 3

Modiwl	Teitl Modiwl	Fersiwn Saesneg	Credits	Tymor
SC33100/33140	Prosiect Ymchwil Seicoleg Ar Gyfer Anrhydedd Sengl	PS33100/33140	40	1 & 2
SC34100/34120	Prosiect Ymchwil Seicoleg Ar Gyfer Cyd-anrhydedd	PS34100/34120	20	1 & 2

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Cymraeg yn Aberystwyth, a sut y gall gefnogi eich dysgu a chyflawni eich gallu yn ystod eich gradd, ewch i <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg>

Cyflwyno Asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gan Brifysgol Aberystwyth bolisi dwyieithrwydd ar gyfer pob asesiad ysgrifenedig, gan gynnwys traethodau gwaith cwrs ac arholiadau. Caiff myfyrwyr, p'un ai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith asesu'r modiwl dan sylw, ddewis cyflwyno sgriptiau arholiadau ac asesiadau gwaith cwrs naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg (ac eithrio asesiadau lle mae asesu iaith yn rhan o ddeilliannau dysgu'r modiwl). Bydd myfyrwyr sy'n dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu harholi yn yr iaith honno; mae gan fyfyrwyr sy'n dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Saesneg hawl i gael eu hasesu yn Gymraeg.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu polisi ar gyfieithu asesiadau er mwyn sicrhau uniondeb y broses (h.y. na fydd myfyrwyr yn cael mantais nac anfantais annheg o ran marcio gwaith wedi'i gyfieithu. Nid oes disgwyl i fyfyrwyr sydd am gyflwyno sgriptiau arholiadau neu asesiadau gwaith cwrs yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg roi gwybod am hyn i adrannau academiaidd ymlaen llaw. Fodd bynnag, er mwyn caniatáu amser i baratoi papurau arholiad Cymraeg ar gyfer modiwlau cyfrwng Saesneg, gofynnir i fyfyrwyr hysbysu **Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg** erbyn y dyddiadau a gyhoeddir gan y Ganolfan.

Cyflogadwyedd

Ar draws eich rhaglen radd, byddwch yn datblygu ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr; Bydd y sgiliau y byddwch chi'n eu harfer yn amrywiol ond yn cynnwys, er enghraifft, datrys problemau, sgiliau ymchwil, cyfathrebu ac ymddygiad moesegol. Byddwch hefyd yn dechrau'r broses gynllunio ar gyfer gyrfa sy'n cyfateb i'ch diddordebau a'ch sgiliau. Ac, byddwn hefyd yn eich helpu i gymhwyso'r cynnwys academiaidd i gyd-destunau eraill, megis y gweithle neu wirfoddoli.

Cyfleoedd i Astudio neu i Weithio Dramor

Cynlluniau sy'n cynnwys Blwyddyn Ryng-gwrs integredig

Gall cynlluniau sy'n cynnwys Blwyddyn Ryng-gwrs integredig gynnwys:

- (i) Blwyddyn integredig mewn diwydiant, yn cynnwys cyfnod yn gweithio yn y DU neu dramor
- (ii) Blwyddyn integredig yn astudio dramor, yn cynnwys cyfnod yn astudio mewn prifysgol dramor.

Yn ystod y Flwyddyn Ryng-gwrs, disgwylir i fyfyrwyr fod mewn gwaith neu yn astudio dramor am isafswm o 30 wythnos, ynghyd a chydymffurfio â gofynion yr Athrofa wrth gadw mewn cysylltiad â thiworiaid yn ystod y cyfnod hwn. Gall myfyrwyr sy'n methu gwneud cynnydd academiaidd boddhaol yn ystod y Flwyddyn Ryng-gwrs wynebu cael eu cyfeirio at Gyfarwyddwr yr Athrofa yn unol â'r Rheoliad Academiaidd ynghylch Cynnydd Academiaidd.

Bydd y Flwyddyn Ryng-gwrs yn cael ei marcio yn unol â'r meini prawf asesu a gyhoeddwyd, a gall Bwrdd Arholi'r Senedd fynnu bod myfyrwyr sy'n methu cyflawni'r canlyniadau dysgu a llwyddo i sicrhau marc o farc o 40% neu fwy neu lwyddo i gwblhau'r flwyddyn yn trosglwyddo i gynllun gradd cytras nad yw'n cynnwys y flwyddyn integredig mewn diwydiant neu'r flwyddyn integredig yn astudio dramor. Noder yn ogystal na chaniateir i fyfyrwyr dreulio cyfnod ar leoliadau cyfnewid yn ystod y flwyddyn cyn y Flwyddyn.

Eich Llais: Casglu Adborth Myfyrwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwmo i ddarparu profiad o'r radd flaenaf i'w myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn bartneriaid yn eu dysgu, ac mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais mawr ar eu barn am y rhaglenni academiaidd a'r profiad myfyriwr ehangach.

Trwy 'Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif' bydd staff a myfyrwyr yn cydweithio i wneud Aberystwyth yn brifysgol eithriadol. Gallwch sôn am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda, lle y gallwn wella, a beth sy'n bwysig i chi. Gallwch gymryd rhan trwy gysylltu â swyddogion neu gynrychiolwyr academiaidd Undeb y Myfyrwyr, siarad gyda'ch darlithwyr neu staff cymorth, cwblhau'r ffurflen ar-lein 'Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif', neu gwblhau Holiadur Gwerthuso Modiwl. Mae eich adborth yn ein helpu i barhau i gyfoethogi'r profiad myfyriwr.

Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif, felly cysylltwch gyda ni i fynegi eich barn.

Holiaduron Gwerthuso Modiwl

Bob semester, bydd gofyn i bob myfyriwr israddedig gwblhau Holiadur Gwerthuso Modiwl ar-lein yn y dosbarth ar gyfer pob modiwl. Mae'r holl adborth o'r Holiaduron yn ddienw a chaiff ei ddefnyddio er mwyn asesu perfformiad y modiwl a gwneud unrhyw newidiadau posibl. Bydd pob cydlynedd modiwl yn ysgrifennu adroddiad yn dadansoddi'r canlyniadau, a byddant yn cael eu darparu i fyfyrwyr trwy drafodaethau wyneb yn wyneb, trwy e-bost ac ar y Bwrdd Du.

Gofynnir i chi ddarparu adborth adeiladol ar eich modiwlau, gan gwblhau'r gwerthusiadau modiwl yn onest, gydag ystyriaeth a pharch i'r staff addysgu a'r staff cymorth ar bob modiwl yn unol â'r Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr <https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/>.

Wrth iddynt gyflwyno sylwadau, hysbysir myfyrwyr bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i ddileu neu ailolygu sylwadau os ystyrir eu bod yn torri'r Rheolau a'r Rheoliadau Myfyrwyr <https://www.aber.ac.uk/cy/regulations>

Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif

Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif yw'r broses sy'n caniatáu i fyfyrwyr roi adborth ar unrhyw adeg am unrhyw agwedd o'u profiad yn y Brifysgol. Mae adborth myfyrwyr yn helpu'r Brifysgol i barhau i gyfoethogi'r profiad myfyriwr, trwy ddweud wrthym beth rydyn ni'n ei wneud yn dda, beth y gallwn ei wella a beth sy'n fwyaf pwysig i chi. Unwaith eto, gofynnir i chi roi adborth cadarnhaol gydag ystyriaeth a pharch i staff yn unol â'r Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr

<https://www.aber.ac.uk/cy/regulations>

Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr yn rhan gwbl ganolog o'r dysgu a'r addysgu ac mae sicrhau llais effeithiol i'r myfyrwyr, gyda threfniadau cynrychioli priodol, yn sylfaenol i systemau sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol. Drwy hyn mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i'r myfyrwyr ar sawl haen yn strwythur y Brifysgol er mwyn cyfrannu at ei llwyddiant o ran cynnal a chyfoethogi profiad y myfyrwyr. Diben y Pwyllgorau Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr yw sefydlu dull ffurfiol o gynnal trafodaethau a chyfathrebu rhwng y Brifysgol a'r myfyrwyr ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag agweddau academaidd sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. , yn unol â'r Rheoliadau a'r canllawiau ynglŷn a chynrychiolaeth myfyrwyr yn y Llawlyfr Sicrwydd Ansawdd. (<https://www.aber.ac.uk/cy/governance/>)

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/student-support/>.

Cadeirir SSCC yr Adran Seicoleg gan Dr. Gil Greengross. Mae'r SSCC yn cynnwys staff academaidd o'r Adran Seicoleg a chynrychiolydd myfyrwyr a etholir o bob blwyddyn o'r cynllun gradd israddedig ynghyd â chynrychiolydd ôl-raddedig. Mae'r pwyllgor yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Enwebir cynrychiolwyr myfyrwyr a'u hethol ym mis Hydref a byddant yn cael hyfforddiant gan Undeb y Myfyrwyr. Mae rhagor o fanylion am SSCC a'i gyfarfodydd ar gael ar Blackboard.

Cynorthwywyr Adrannol

Mae gan bob Adran academaidd dîm o Gynorthwywyr Adrannol i Gymheiriaid (sydd naill ai'n fyfyrwyr o'r ail neu'r drydedd flwyddyn neu'n uwchraddedig). Bob blwyddyn mae'r Cynorthwywyr hyn wrth law i gynnig cymorth, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr newydd y flwyddyn gyntaf. Gall y Cynorthwywyr gynorthwyo myfyrwyr newydd i ymgartrefu ac ymglyfarwyddo â bywyd Prifysgol oherwydd bod ganddynt wybodaeth a phrofiad o'r Brifysgol, yr Adran a'r dref. Mae sgysiau unigol rhwng myfyrwyr newydd a Chynorthwywyr Cymheiriaid yn breifat a Chyfrinachol.

Ychydig cyn dechrau bob blwyddyn academaidd, mae'r Adran yn cysylltu â myfyrwyr newydd ac yn rhoi manylion iddynt ynglŷn â threfniadau i gysylltu â'u Cynorthwywyr. Am rhagor o wyboadeth yna cysylltwch a'r adran ar dad35@aber.ac.uk

Adran C: Cofrestru a'ch Rhaglen

Cofrestru

Cyn bod modd i chi fod yn fyfyrwr cofrestredig amser llawn neu ran-amser yn y Brifysgol, mae'n rhaid i chi gofrestru ar ddechrau'r sesiwn. Mae gwybodaeth am gofrestru, yr amserlen gofrestru, a rhestr lawn o ddigwyddiadau ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/new-students/freshers/registration/>.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Cofrestru Israddedig, cysylltwch â'r Gofrestrfa Academaidd (e-bost: ugfstaff@aber.ac.uk, ffôn: 01970 628515/622787). Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd os nad ydych yn gallu cofrestru ar amser. **Sylwer: Os na fyddwch yn cwblhau'r cofrestru, ni fyddwch wedi'ch cofrestru fel myfyriwr a bydd eich mynediad i gyfleusterau'r Brifysgol yn cael ei atal.**

Cyfrifoldebau Fisâu Myfyrwyr Haen 4

Gwybodaeth bwysig i bobl o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn y DU sydd â fisa myfyriwr Haen 4.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn 'noddwr' cofrestredig o dan Haen 4 y system Mewnfudo ar Sail Pwyntiau. Mae hynny'n golygu y cawn ddenu a noddi myfyrwyr rhyngwladol.

Mae'r Swyddfa Gartref, o dan y system honno, yn gosod cyfrifoldebau ar fyfyrwyr ac ar eu Prifysgol i sicrhau bod y rheolau mewnfudo'n cael eu dilyn.

Fel noddwr cofrestredig, mae'r Brifysgol wedi llunio polisïau a gweithdrefnau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau hyn. Bwriedir i'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn hefyd amddiffyn eich statws mewnfudo.

Er mwyn helpu i osgoi anawsterau posib rydym wedi darparu arweiniad ar y cyfrifoldebau hyn ar y wefan hon a hefyd yn adran adnoddau'r dudalen Gwybodaeth am Gydydffurfio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r [Tîm Cymorth a Chydymffurfio â Fisâu](#).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/en/international/compliance-information>

Achrediad

Mae'r Adran Seicoleg yn Aberystwyth wedi'i achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain am ei rhaglenni anrhydedd sengl a chydanheddedd. Mae hyn yn golygu eich bod, ar yr amod bodloni gofynion penodol a amlinellir isod, ar ôl cwblhau bydd eich gradd yn rhoi ar chi cymhwyster ar gyfer y Sylfaen Raddedig ar gyfer Siartredig (GBC) Aelodaeth y BPS. Mae hyn yn arwydd o ansawdd y ddarpariaeth, ond hefyd yn angenrheidiol ar gyfer mynediad i raglenni hyfforddiant ôl-raddedig a phroffesiynol yng Seicoleg a disgyblaethau cysylltiedig sy'n arwain at Aelodaeth Siartredig y BPS. Mae llawer o lwybrau gyrfa Seicoleg-benodol yn gofyn am GBC ar gyfer mynediad - er enghraifft, mynediad at raglenni ôl-radd mewn meysydd fel Clinigol, Addysg ac Iechyd Seicoleg yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer y GBC.

Beth yw Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS)?

Mae Cymdeithas Seicolegol Prydain yw'r corff aelodaeth proffesiynol sy'n cynrychioli Seicoleg a seicolegwyr yn y DU. Y BPS yn achredu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig mewn Seicoleg ac yn cefnogi aelodau drwy amrywiaeth o ganghennau lleol, grwpiau diddordeb arbennig a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r BPS hefyd yn gosod y safonau moesegol a phroffesiynol y mae'n rhaid i bob myfyriwr, staff a seicolegwyr proffesiynol gadw wrth ymgymryd â gwaith ymchwil gyda chyfranogwyr dynol. Cod y BPS yn Moeseg ac Ymddygiad yn ddogfen allweddol sy'n gosod allan y safonau hyn.

Mae myfyrwyr ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig yn yr Adran yn gymwys i ymuno â'r BPS fel aelodau myfyrwyr. Am fwy o fanylion, ewch i Aelod Myfyrwyr BPS webpage neu siaradwch ag aelod o PsychSoc.

Sylfaen Raddedig ar gyfer Aelodaeth Siartredig (GBC)

Er mwyn cwrdd â gofynion y BPS ar gyfer sail raddedigion ar gyfer aelodaeth siartredig, rhaid i fyfyrwyr ennill o leiaf gradd 2:2 anrhydedd (ail is) , a rhaid i'r prosiect ymchwil hefyd yn cael ei basio. Gwybodaeth ynghylch modiwlau.

Strwythurau Cynlluniau a Manylebau Rhaglenni

Ceir dolenni cyswllt â strwythurau'r holl gynlluniau cyfredol yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/>

Ceir dolenni cyswllt â manylebau'r holl raglenni cyfredol yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/programme-specs/index.html>

Bydd eich cynllun gradd yn cynnwys 'modiwlau craidd' y bydd yn rhaid i chi eu hastudio, ond gall hefyd gynnwys 'modiwlau dewisol'. Noder y gall y dewisiadau ar gyfer modiwlau dewisol fod yn gyfyngedig mewn rhai achosion lle gweithredir trothwy isaf. Golyga hyn na all y Brifysgol sicrhau bod modiwlau dewisol yn cael eu cynnig gyda nifer isel iawn o gofrestriadau, ac y gallai myfyrwyr orfod dewis eto.

Mae modiwlau opsiwn yn amodol ar nifer ofynnol o gofrestriadau ac os nad yw nifer y myfyrwyr sy 'n dymuno cymryd modiwl opsiynau penodol yn bodloni 'r isafswm gofynnol, gellir tynnu 'r modiwl opsiynau yn ôl a bydd gofyn i chi ddewis opsiwn arall. Yn yr un modd, gall modiwlau opsiwn weithredu cap ar nifer y lleoedd sydd ar gael. Yn yr achosion hyn, caiff lleoedd eu dyrannu ar sail y cyntaf i 'r felin a bydd angen i fyfyrwyr sy 'n dymuno cymryd modiwl sydd â gormod o geisiadau ddewis modiwl gwahanol i gwblhau eu cyn-cofrestru. Os yw hyn yn wir, gallwch ofyn am gael eich rhoi ar restr aros i weld a fydd lle ar gael ar eich dewis cyntaf; Fodd bynnag, ni fyddwn yn gallu cadarnhau a oes gennych le ar y modiwl hwnnw tan y mis Medi dilynol.

Yn ystod y cyn-gofrestru, anogir myfyrwyr i ddewis eu modiwlau opsiwn ar y cyfle cyntaf er mwyn manteisio i 'r eithaf ar y cyfle o gael lle ar eich dewisiadau dewisol.

Gwybodaeth ynghylch modiwlau

Uned astudio mewn cynllun gradd yw modiwl, ac mae ganddo ei ganlyniadau dysgu ei hun. Ceir dolenni cyswllt â manylion modiwlau unigol yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/modules/>.

Rhoddir cod saith digid i bob modiwl yn Aberystwyth. Mae'r cod yn rhoi gwybodaeth bwysig i chi am y modiwl. Mae'r ddwy llythyren gyntaf yn dynodi'r pwnc (CY Cymraeg); mae'r rhif cyntaf yn dynodi'r lefel: (hynny yw 1,2,3, ac M ar gyfer Meistr); mae'r ddau ddigid olaf yn dynodi gwerth y credydau (10, 20 ac yn y blaen). Mae '00' yn golygu semester cyntaf modiwl tenau a ddysgir dros ddau semester

Amserlen Academaidd

Wedi i chi gofrestru, gallwch weld eich amserlen ar-lein bersonol drwy eich cofnod myfyriwr:

<https://studentrecord.aber.ac.uk/cy>

Os oes gennych gwestiynau am eich amserlen unigol, holwch eich adran academaidd yn y lle cyntaf: <https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/departmental-timetable-officers>

Adran D: Asesu ac Adborth

Mae Blackboard yn Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y campws i gefnogi'r dysgu a'r addysgu o fyfyrwyr. Mae'n gyfleuster sy'n caniatáu darlithwyr i lwytho ystod eang o ddeunyddiau cwrs, gwneud cyhoeddiadau, gwaith marcio a gyflwynir yn electronig, yn ogystal â galluogi myfyrwyr i wneud defnydd o'i nodweddion rhyngweithiol, megis blogiau a byrddau trafod, a chyflwyno yn electronig gwaith cwrs. Mae gan y Brifysgol bolisi Isafswm Angen Presenoldeb (RMP) ar gyfer yr holl staff ar draws y campws, ond mae llawer o ddarlithwyr yn y Sefydliad eisoes yn defnyddio Blackboard yn helaeth i gefnogi eu haddysgu. Ar y lleiaf, wrth gael mynediad tudalennau Blackboard modiwl, gallwch ddisgwyl i ddod o hyd:

- Gwybodaeth Modiwl - pob modiwl yn cael llawlyfr y modiwl ar gael ar Blackboard, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y modiwl a'i strwythur, cynnwys ac addysgu amserlen, ei ganlyniadau dysgu a dulliau asesu
- Modiwl Cynnwys - gan gynnwys deunyddiau addysgu (ee sleidiau darlithoedd, nodiadau darlith, recordiadau darlith, darllen atodol), Aspire rhestr ddarllen. Mae rhai modiwlau hefyd yn cynnwys cynnwys rhyngweithiol fel cwisiau ar-lein, gweithgareddau, podlediadau, blogiau a byrddau trafod i gefnogi eich dysgu.
- Aseiniad Gwybodaeth - Gwybodaeth am aseiniadau gwaith cwrs, gan gynnwys manylion yr aseiniad, meini prawf marcio, cysylltiadau cyflwyno electronig a gwybodaeth am eich adborth
- Gwybodaeth Gyffredinol - Proffiliau Staff a manylion cyswllt, cysylltiadau â pholisiau perthnasol a gweithdrefnau (ee gwybodaeth am estyniadau, amgylchiadau arbennig, ymarfer academaidd annheg ac ati)
- Panopto - Mae Prifysgol Aberystwyth yn disgwyl bod pob darlith yn cael ei recordio ac ar gael i fyfyrwyr. Noder gall hyn amrywio yn ol y natur y dysgu. Ni fydd seminarau, dosbarthiadau titworal, weithdai neu ymarferion labordy yn cael ei recordio ac hefyd ni fydd elfennau rhyngweithiol o sesiyanu dysgu.

Mae pob modiwl eich bod yn cofrestru am y bydd yn rhaid ei dudalennau Blackboard ei hun sy'n cynnwys yr holl gynnwys dysgu perthnasol ar gyfer y modiwl penodol. Gallwch ond gael mynediad tudalennau Blackboard modiwl unwaith y byddwch wedi cofrestru fel myfyriwr ar y modiwl. Dylai myfyrwyr gymryd yn ganiataol y bydd yr holl wybodaeth berthnasol am y cwrs yn cael ei llwytho i fyny i Blackboard a dylent ymgynghori â'r tudalennau perthnasol ar gyfer gwybodaeth am y cwrs cyn cysylltu staff modiwl.

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer AberLearn Blackboard:

https://blackboard.aber.ac.uk/webapps/portal/execute/tabs/tabAction?tab_group_id=1

[9_1](#)

SgiliauAber/AberSkills

Adnodd ar-lein helaeth yw SgiliauAber/AberSkills sydd ar gael i holl fyfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth. Mae'n cynnwys cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth eang o sgiliau astudio. Mae'r cyngor wedi'i drefnu'n adrannau sy'n cysylltu'n agos ag aseiniadau, arholiadau a mathau eraill o asesu. Caiff yr wybodaeth ei darparu ar lefelau cyffredinol a phwnc benodol gan gynnwys cyngor a deunyddiau a grëwyd yn y brifysgol ac mewn mannau eraill. Mae'r cyngor yn cynnwys arweiniad ymarferol ar ysgrifennu academiaidd, cyfeiriadu, cyflwyniadau, arholiadau ac amrywiaeth eang o strategaethau dysgu ac adnoddau astudio. Mae modd ei gyrchu o brif dudalen AberLearn Blackboard, neu uniongyrchol drwy'r dolenni hyn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/>

Ceir manylion pellach ynghlyn a astudio yn Seicoleg ar Blackboard, yn y modiwl Gwyboadeth i Israddedigion Seicoleg – Astudio yn Seicoleg.

Dulliau Asesu

Mae'r adran yn cynnwys ystod o asesiadau sy'n rhoi i fyfyrwyr y cyfle i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu a chyflwyno, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae enghreifftiau o'r mathau o asesiadau y bydd myfyrwyr yn dod ar draws yw:

- Arholiadau (arholiadau a welwyd, anweledig, a-llyfr agored)
- Adroddiadau Labordy
- Traethodau
- Adolygiadau Beirniadol
- cynigion ymchwil
- Prosiect ymchwil (traethawd hir)
- portffolios Myfyriol (hunanarfarniadau)
- Blogs, byrddau trafod a wikis
- cyflwyniadau poster academiaidd (arddangosiad gweledol o waith)
- Cyflwyniadau llafar

Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau

Mae dyddiadau cau gwaith ysgrifenedig yn fater y mae'r Brifysgol yn ei gymryd o ddifrif. Mae'n rhaid i'r myfyrwyr reoli eu hamser mewn modd cyfrifol er mwyn gallu cyflwyno'u gwaith yn brydlon. Rhaid cyflwyno gwaith cwrs i'r adran yn unol â'r gofynion adrannol unigol a'r dyddiadau cau a gyhoeddwyd ganddi. Bydd gwaith a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael marc sero. Oni cheir cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb, dylid cyflwyno pob gwaith cwrs yn electronig os yw yn seiliedig ar destun ac ar brosesydd geiriau.

Absenoldeb o Arholiadau

Bernir bod ymgeisydd yn absennol am reswm da o arholiad neu asesiad os cyflwynir dogfennaeth i gadarnhau salwch, damwain, profedigaeth agos neu amgylchiadau tosturiol sy'n ymwneud yn agos â'r ymgeisydd. Bydd gan y Bwrdd Arholi perthnasol ddisgresiwn i benderfynu, ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, a oedd ymgeisydd yn absennol am reswm da. Bydd ymgeisydd a fu'n absennol heb reswm da o unrhyw arholiad yn y Brifysgol neu a fethodd â chyflawni mathau eraill o asesiadau erbyn y dyddiad angenrheidiol yn cael marc sero am yr asesiad dan sylw.

Ceisiadau am Estyniad

Os oes rheswm anorfod sy'n golygu na ellir cyflwyno gwaith cwrs mewn pryd, mae'n rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais am estyniad trwy gwblhau'r Ffurflen Gais am Estyniad i Ddyddiad Cyflwyno Gwaith Cwrs. Dylid gofyn i'ch adran academiaidd neu edrych ar y modiwl Gwybodaeth i Myfyrwyr Seicoleg am gopi o'r ffurflen, sy'n rhoi cyfarwyddiadau manwl ar yr amgylchiadau lle y bydd posibilrwydd o ganiatau estyniadau, hyd yr estyniadau, a beth i'w wneud os nad oes modd caniatáu estyniad neu os gwrthodir y cais.

Dylai'r Ffurflen Gais am Estyniad Dyddiad Cau Gwaith Cwrs cael ei cyflwyno i'r Swyddogion Estyniadau Gwaith Cwrs y Cyfadran trwy ebost at fels-sc-ext@aber.ac.uk

Amgylchiadau Arbennig

Nod y Brifysgol yw asesu ei myfyrwyr i gyd mewn modd cadarn ond teg, yn unol â'i rheoliadau a'i gweithdrefnau cymeradwy. Er hynny, mae'n dibynnu ar ei myfyrwyr i roi gwybod iddi am unrhyw amgylchiadau arbennig a allai effeithio ar eu perfformiad, fel y gall sicrhau bod ei holl fyfyrwyr yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Dyma rai enghreifftiau o Amgylchiadau Arbennig (dim ond enghreifftiau yw'r rhain, nid rhestr gyflawn mohoni): salwch tymor hir neu dymor byr, problemau ariannol difrifol, problemau difrifol â'ch llety, profedigaeth neu ryw amgylchiadau personol eraill. Os byddwch am roi gwybod i'r Brifysgol am amgylchiadau arbennig, llenwch bob rhan o'r Ffurflen Amgylchiadau Arbennig a'i hanfon at eich adran trwy ebostio fels-sc-


ext@aber.ac.uk , ynghyd â chopïau o'r dystiolaeth. Dylwch nodi bod rhaid i fyfyrwyr hysbysu'r Brifysgol o unrhyw amgylchiadau personol eithriadol a allai effeithio ar eu perfformiad academaidd cyn gynted ag sy'n bosib ac ym mhob achos cyn i'r Byrddau Arholi gyfarfod. Ceir cyfarwyddyd pellach yn adran 3.8 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd:
<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/>

**Cyfadr an Gwyddorau a Daear Bywyd — Gweithdrefn Amgylchiadau Arbenig
Gwybodaeth i myfyrwr**

Gall y tystiolaeth i dangos effaith ar y myfyrwr o'r amgylchiadau arbenig cynnwys

- tystysgrif feddygol/lechyd yn nodi dyddiad sy'n berthnasol i'r asesiad
- Trefn y Gwasanaeth (neu tystysgrif farwolaeth) os yw'r amgylchiadau yn ymwneud â phrofedigaeth teulu/frind
- llythyr yn cefnogi/eguro gan wasanaeth cymorth yn y Brifysgol, neu fudiad cymorth allanol priodol arall

Bydd tystiolaeth yn cael ei gwirio ar ôl ei derbyn ac os nad yw'n berthnasol, bydd y myfyrwr yn derbyn e-bost yn gofyn am ragor o wybodaeth



Myfyrwr yn pasio'r modiwl (amgylchiadau arbenig wedi'i nodi ond heb ei ddefnyddio a'i gadw ar BYfer y trothwy <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/>)

Myfyrwr yn methu'r modiwl. Amgylchiadau arbenig yn cael ei cynhywso a dangosydd all eistedd M/H/S. Myfyrwr yn ailsefyll.

Myfyrwr wedi cael addasiad (estyniad). Dim camau pellach

Mae amgylchiadau arbenig wedi'u hystyried ond wedi'u gwrthod oherwydd nad oes digon o dystiolaeth/dim effaith ar asesiadau. Dim camau pellach.

Mater lechyd tymor hir neu anablled
 Ue y gellir disgwyl i effeithiau cyflwr lechyd neu anablledd hir (ymor gael effaith bosibl ar eich astudiaethau, mae'r Brifysgol yn disgwyl byddwch yn trafod hyn gyda'r cngorhwr hygyrchedd myfyrwr mewn da byd cyn asesiadau i benderfynu a rydych chi'n cael addasiadau rhesymol i'ch astudiaethau neu'ch asesiadau. Bydd ffurflen amgylchiadau arbenig ond yn cael ei hystyried pan fo naill ai (a) amod neu anablledd newydd yn cael ei ddiagnosio'n rhy hwyr i ganiatáu i addasiadau rhesymol gael eu hystyried neu eu rhoi ar waith neu (b) os ydych chi effeithio gan ddiwyriad sydyn neu newd yn eich cyflwr (e.e. sgliff-faithiau o newd meddyginaeth yn ddiweddar, lliid/digwyddiad yn agos at asesiad (e.e. ffit epileptig neu meigrin ar ddiwmod yr asesiad)).

Trefniadau Marcio a Chymedroli

Cynhelir pob arholiad yn unol â gweithdrefn Marcio Anhysbys y Brifysgol a amlinellir yn adran 3.5 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, a bydd ymgeiswyr yn parhau yn anhysbys hyd nes y cynhelir Bwrdd Arholi'r adran. Bryd hynny, derbynir argymhellion Paneli Amgylchiadau Arbennig yr adran, er mwyn ystyried amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau arbennig eraill a gyflwynwyd gan y myfyriwr yn unol â Gweithdrefn Amgylchiadau Arbennig y Brifysgol (adran 3.8 yn y Llawlyfr Ansawdd). Gweithredir polisi tebyg ar gyfer gwaith cwrs, gyda rhai eithriadau a gymeradwyir gan Athrofeydd lle nad yw trefniadau anhysbys yn ymarferol neu'n ddymunol.

Disgwyliad Cod Ansawdd y DU (Pennod B6) yw y bydd gan sefydliadau addysg uwch drefniadau tryloyw a theg ar gyfer marcio a chymedroli. Mae angen i'r Brifysgol fod yn sicr bod prosesau cymedroli mewnol sy'n gadarn, effeithiol a chyson yn cael eu gweithredu ym mhob adran academaidd. Mae manylion y prosesau hyn yn debygol o amrywio yn ôl amgylchiadau penodol a gofynion cyrff proffesiynol, ond dylai pob adran academaidd lynu wrth y diffiniadau a'r gofynion sylfaenol a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd wrth weithredu eu prosesau cymedroli mewnol.

Meini Prawf Marcio

Ar gyfer pob darn o waith cwrs i chi gyflwyno, byddwch yn derbyn adborth sy'n dilyn rubics marcio a restrir ar pp.20-28 a ddefnyddiwn i asesu eich gwaith ac yn rhoi adborth i chi. Mae'r tabl isod yn rhoi meini prawf ar enghraifft a ddefnyddiwyd i'n helpu i asesu eich gwaith ac yn rhoi adborth i chi i chi:

1. Theori	sylfaen ddamcaniaethol, perthnasedd cyd-destunol, llenyddiaeth, cwestiwn ymchwil, rhagdybiaeth
2. Dadl	gwreiddioldeb, gweithredoliad, cynllun, methodoleg
3. Dadansoddi	dadansoddol, rhesymegol, cywir, mynegi canlyniadau
4. Cloriannu	ystyriaethau damcaniaethol, cafeatau, beirniadaeth, goblygiadau, dehongliad, cymwysiaidau
5. Ysgrifennu	eglurder, cydlyniad, strwythur, ffocws, trefniadaeth, gramadeg/sillafu
6. Diwyg	cyfeirnoddi (dull APA), hyd, ffigurau

Bydd y meini prawf marcio penodol a restrir yn y rubics marcio cyfieithu i mewn i gynllun marcio a ddefnyddiwn wrth raddio eich gwaith. Noder bod y gwaith sy'n cyflawni gradd o fewn categori penodol o reidrwydd yn dangos holl nodweddion a nodir uchod. Mae hyn yn arbennig o wir ym mhen uchaf (70+) a diwedd (-38) waelod y raddfa. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y marc terfynol yn adlewyrchu barn academaidd cyffredinol a bydd rhai categorïau yn bwysicach nag eraill. Yn ogystal, wrth farcio efallai y byddwn hefyd yn ystyried eich gallu i gwblhau'r aseiniad yn hyd geiriau gofynnol (+/- 10%).

Beth a ddisgwylir gan fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf, ail a thrydydd?

Disgwylir i fyfyrwyr ymgysylltu â deunydd tu hwnt i hynny a roddir iddynt mewn darlithoedd a seminarau. Hyd yn oed ar lefel y flwyddyn gyntaf, nid yw'n ddigon i gynhyrchu gwaith sy'n seiliedig ar nodiadau darlith ac / neu werslyfrau yn unig. Yn wir, dylai deunyddiau hyn ond yn cael ei defnyddio i roi cyflwyniad i'r pwnc, yn hytrach na defnyddio fel tystiolaeth i gefnogi eich dadleuon mewn asesiadau. Beth bynnag o'r flwyddyn, dylai myfyrwyr:

- dangos menter wrth chwilio am ffynonellau a adolygir gan gymheiriaid i lunio cwestiwn ymchwil priodol a / neu ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu dadl;
- yn meddu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r fethodoleg briodol, o ran casglu a dadansoddi data; ac
- gallu i ddehongli a gwerthuso canfyddiadau gan ystyried y goblygiadau a cheisiadau o'r ymchwil.

Felly nid oes unrhyw sgiliau newydd y bydd myfyrwyr yn dysgu yn yr ail a'r drydedd flwyddyn fel y cyfryw, yn hytrach, gan fod myfyrwyr yn symud ymlaen i flynyddoedd 2 a 3 bydd disgwyl iddynt ddangos eu gallu i ddatblygu a gweithredu, yn fwy deftly, meini prawf marcio a amlinellir ar taflenni clawr aseiniad ac yn y cyfarwyddiadau marcio isod.

A fydd staff drafftiau darllen fy aseiniad i mi?

Nid yw staff yn gwneud gwaith prawf ddarllen ar gyfer myfyrwyr cyn eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae darlithwyr yn hapus i drafod materion / pryderon y gallai myfyrwyr gael ynghylch cynnwys. Yn wir, os yw myfyrwyr yn cael trafferth gyda aseiniad, dylent geisio cymorth gan yr aelod priodol o staff drwy fynd i'w gweld nhw yn ystod eu oriau swyddfa.

Marcio rhuddellau Israddedig:

Bydd graddau ar gyfer pob darn o waith a asesir fel arfer yn cael ei roi fel a ganlyn:

Classification	% Band
Methu	0, 5, 10, 15, 20, 25, 30, 35
Dosbarth 3	40, 42, 45, 48
Dosbarth 2.2	50, 52, 55, 58
Dosbarth 2.1	60, 62, 65, 68
Dosbarth 1	70, 72, 75, 80, 85, 95

Mae'r cynllun marcio yn defnyddio tri phwynt ym mhob dosbarth (ac eithrio ar gyfer Methu a dosbarth cyntaf lle mae pedwar neu bump) ar gyfer pob darn unigol o waith. Caiff y marciau hyn yn cael eu hagregu dros yr holl waith a asesir felly efallai y marc terfynol ar gyfer uned yn cynnwys dwy neu ragor o rannau sydd wedi'u gyfartaledd.

Canllawiau marcio

Traethodau, Adroddiadau, Adolygiadau Beirniadol, Wikis, Cynigion Ymchwil a Phrosiectau Ymchwil

% Band	Canllawiau marcio
0	Dim deunydd.
5	Fawr o ddeunydd o unrhyw fath.
15	Fawr o ddeunydd seicolegol perthnasol, os o gwbl.
20	Rhywfaint o ddeunydd seicolegol berthnasol ond gyda diffyg dealltwriaeth glir neu werthfawrogiad o sut mae 'r deunydd yn ymwneud â 'r pwnc neu 'r cwestiwn.
25	Ôl paratoi ar gyfer y gwaith neu ddeall y pynciau neu'r maes yn amlwg absennol.
30	Tystiolaeth o rywfaint o ymdrech ond yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig a/neu anghyflawn o 'r cwestiwn neu 'r mater sy 'n cael ei ymchwilio. Diffyg tystiolaeth sylweddol o ddarllen digonol, dealltwriaeth o 'r maes, neu allu beirniadol
35	Tystiolaeth o rywfaint o ymdrech ond ychydig iawn o werthfawrogiad o'r cwestiwn na'r pwnc. Diffyg tystiolaeth o waith darllen digonol, deall y maes, na gallu beirniadol.
40-42	Tystiolaeth o ddigon o waith darllen neu ddealltwriaeth i fod yn deilwng o basio sylfaenol iawn.
45	Gwaith cyfyngedig, sy'n ddiffygiol o ran ei hyd a'i led, ac o bosibl yn methu mynd i'r afael â'r pwnc mewn digon o fanylder.
48	Gwaith cyffredin a chyfyngedig ond yn trafod digon o bwyntiau i fodloni'r cwestiwn yn sylfaenol.
50-52	Peth tystiolaeth o ddigon o waith darllen a'r gallu i gyflwyno enghreifftiau, ond o bosibl yn denau o ran cynnwys ac yn gyfyngedig o ran rhychwant.
55	Tystiolaeth o ddigon o waith darllen a threfnu cysyniadau a thystiolaeth ond heb fawr o wreiddioldeb na gallu beirniadol.
58	Darn o waith cymwys sy'n dangos y gallu i drefnu'r hyn a ddarllenwyd yn gydlynus gan roi enghreifftiau priodol o dystiolaeth a dadleuon eraill.
60 -62	Adlewyrchu dealltwriaeth a threfniant cadarn a chymwys o'r deunydd a pheth gallu beirniadol.
65	Adlewyrchu dealltwriaeth gymwys sy'n cael ei dangos yn y gallu i drefnu gwaith yn effeithiol mewn dadl glir, gan wneud defnydd da o dystiolaeth.
68	Adlewyrchu gwaith cymwys iawn sy'n dangos dealltwriaeth drylwyr a gallu beirniadol da.
70 - 72	Darn o waith sydd, yn ogystal ag ateb y cwestiwn yn drylwyr o'r adnoddau a ddarperir ar y cwrs, yn cyfrannu rhywbeth newydd ar ffurf llenyddiaeth newydd, gallu beirniadol neu syniadau arloesol.
75 - 80	Gafael ragorol ar y cysyniadau, gan ddangos gwaith darllen trylwyr ac eang ac adnabyddiaeth o'r maes, a gallu rhagorol i ddatblygu dadl a'i chefnogi â thystiolaeth. Lefel uchel iawn o allu beirniadol a chreadigrwydd.
85	Gwaith o ansawdd neilltuol. Mae gwaith o'r ansawdd hwn yn arbennig o wreiddiol, beirniadol ac arloesol.
95	95 = Darn o waith sydd fwy neu lai'n berffaith.

Traethodau, Adroddiadau, Adolygiadau Beirniadol, Wikis, Cynigion Ymchwil a Phrosiectau Ymchwil

Class	% Band	Marking Guidelines
Cyntaf	80-100	Eithriadol. Gwerthfawrogiad neilltuol o’r dadleuon academaidd perthnasol, ysgolheictod cyhoeddedig, a defnydd priodol – ac arbennig o fanwl – o ffynonellau sy’n dangos blaengaredd sylweddol wrth ddod o hyd i ddeunydd. Bydd y cwestiwn ymchwil a goblygiadau’r testun yn rhagorol o ran eu cydlyniant a’u ffocws, a bydd myfyrwyr yn dangos treiddgarwch beirniadol, dadansoddol, dychmygus a deongliadol eithriadol drwy gydol y gwaith; bydd y gwaith yn wreiddiol ac yn agos iawn at safon cyhoeddi. Eithriadol graff a threiddgar – bydd myfyrwyr yn dangos eu bod yn gallu trafod deunydd damcaniaethol a/neu fethodolegol a/neu empiraidd yn fedrus ac yn soffistigedig, gan gyflwyno dadleuon sydd wedi’u datblygu a’u cyflwyno’n eithriadol dda. Ceir defnydd rhagorol o gonfensiynau gramadeg, sillafu ac iaith, ynghyd â defnydd perffaith o gonfensiynau dogfennu a chyflwyniad arbennig o effeithiol sy’n gwella’r cyfathrebu yn sylweddol.
	70-79	Rhagorol. Gwerthfawrogiad rhagorol o’r dadleuon academaidd perthnasol, ysgolheictod cyhoeddedig, a defnydd priodol – a manwl – o ffynonellau sy’n dangos tipyn o flaengaredd wrth ddod o hyd i ddeunydd. Bydd y cwestiwn ymchwil a goblygiadau’r testun yn glir ac yn hyderus o ran eu cydlyniant a’u ffocws, a bydd myfyrwyr yn dangos treiddgarwch beirniadol, dadansoddol, dychmygus a deongliadol rhagorol drwy gydol y gwaith; bydd y gwaith yn dangos elfennau o wreiddioldeb. Arbennig o graff a threiddgar – bydd y myfyrwyr yn dangos eu bod yn gallu trafod deunydd damcaniaethol a/neu fethodolegol a/neu empiraidd yn fedrus ac yn soffistigedig, gan gyflwyno dadleuon sydd wedi’u datblygu a’u cyflwyno’n arbennig o dda. Ceir defnydd ardderchog o gonfensiynau gramadeg, sillafu ac iaith, ynghyd â defnydd bron yn berffaith o gonfensiynau dogfennu a chyflwyniad effeithiol sy’n gwella’r cyfathrebu.
Ail uwch (2:1)	60-69	Da. Gwerthfawrogiad da o’r dadleuon academaidd perthnasol, ysgolheictod cyhoeddedig, a defnydd priodol – a da – o ffynonellau sy’n dangos elfen o flaengaredd wrth ddod o hyd i ddeunydd. Bydd y cwestiwn ymchwil a goblygiadau’r testun yn glir ac yn aml yn hyderus o ran eu cydlyniant a’u ffocws, a bydd myfyrwyr yn dangos treiddgarwch beirniadol, dadansoddol, dychmygus, a deongliadol cadarn drwy gydol y gwaith. Yn aml yn graff a threiddgar – bydd myfyrwyr yn dangos eu bod yn gallu trafod deunydd damcaniaethol, a/neu fethodolegol a/neu empiraidd yn dda, gan gyflwyno dadleuon sicr sydd wedi’u datblygu’n dda ac yn drefnus. Ceir defnydd da o gonfensiynau gramadeg, sillafu ac iaith, a dogfennu, ond bydd ambell wall yn y cyflwyno yn amharu weithiau.
Ail is (2:2)	50-59	Digonol. Gwerthfawrogiad digonol o’r dadleuon academaidd perthnasol, ysgolheictod cyhoeddedig, a defnydd priodol ar y cyfan, er weithiau’n ddibynnol neu’n anghyflawn, o ffynonellau sy’n dangos peth blaengaredd wrth ddod o hyd i ddeunydd. Bydd y cwestiwn ymchwil a goblygiadau’r testun yn dangos peth dealltwriaeth o’r dasg a osodwyd, a bydd myfyrwyr yn dangos ychydig o dystiolaeth o dreiddgarwch beirniadol, dadansoddol, dychmygus, a deongliadol drwy gydol y gwaith, ond ni fydd yn gyson. Bydd y gwaith yn dangos rhywfaint o ymdrin â deunydd damcaniaethol, a/neu fethodolegol a/neu empiraidd, gan gyflwyno dadleuon sydd wedi’u datblygu – er na fyddant wedi’u datgan yn glir bob amser. Ceir defnydd digonol o gonfensiynau gramadeg, sillafu ac iaith, a dogfennu, ond bydd ystod eang o wallau yn aml yn effeithio ar y cyfathrebu.

Trydydd	40-49	Fawr o deilyngdod. Peth gwerthfawrogiad o'r dadleuon academiaidd perthnasol, ond dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r ysgolheictod cyhoeddedig heb ymdrech go-iawn i chwilio am ddeunydd ychwanegol. Mae'r cwestiwn ymchwil a goblygiadau'r testun, os ydynt wedi eu nodi, yn amwys, ac mae'r dadleuon a gyflwynir heb eu cefnogi ar y cyfan ac yn dibynnu'n ormodol ar farn oddrychol. Bydd y gwaith yn ddisgrifiadol, yn hytrach na dangos tystiolaeth o dreiddgarwch beirniadol a dadansodol, a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o ddeunydd damcaniaethol, a/neu fethodolegol a/neu empiraidd a geir. Bydd y modd y cyfathrebir y gwaith yn gyfyngedig oherwydd gormod o fynegiant a chyflwyniad amhriodol.
Methu ar y ffin	30-39	Cyfyngedig iawn. Dim gwerthfawrogiad go-iawn o'r dadleuon academiaidd perthnasol na dealltwriaeth o'r hyn y mae'r deunydd yn ei olygu, na gwir ymgysylltu â'r llenyddiaeth. Ni chynigir cwestiwn ymchwil go-iawn a bydd unrhyw ddadleuon a gyflwynir yn seiliedig ar farn oddrychol. Bydd y gwaith yn ddisgrifiadol, a bydd unrhyw ddealltwriaeth o'r deunydd damcaniaethol, a/neu fethodolegol a/neu empiraidd yn gyfyngedig iawn. Bydd y modd y cyfathrebir y gwaith yn cael ei beryglu oherwydd strwythur gwael a gormod o wallau cyflwyno a mynegiant.
Methu'n wael	0-29	Ofnadwy o gyfyngedig. Dim ymdrech i ymgysylltu â ffynonellau a heb ddangos felly unrhyw ddealltwriaeth go-iawn o gysyniadau na phynciau sylfaenol. Ni chynigir cwestiwn ymchwil na dadleuon priodol, felly ni cheir ymdrech i ddehongli na dadansoddi'r deunydd yn gywir. Mae unrhyw ymdrech i ateb y cwestiwn yn annigonol ac yn amherthnasol, ac ni cheir unrhyw ddealltwriaeth o ddeunydd damcaniaethol, a/neu fethodolegol a/neu empiraidd. Mae'r modd y cyfathrebir y gwaith yn aneffeithiol oherwydd ymdrech ddibwys i weithredu egwyddorion mwyaf sylfaenol dogfennu a chyflwyno.
		Noder: Bwriedir y meini prawf hyn fel canllawiau yn unig. Bydd asesu gwaith y myfyrwyr yn dibynnu yn y pen draw ar farn broffesiynol y sawl sy'n marcio.

Cyflwyniadau llafar a Phoster Myfyrwyr

Dylai Ar gyfer cyflwyniadau llafar a phoster myfyrwyr hefyd gyfeirio at y canllawiau isod wrth baratoi cynnwys i'w gyflwyno yn ychwanegol at y cyfarwyddyd ar gyfer gwaith ysgrifenedig. Mae'r canllawiau canlynol ar gyfer yr union cyflwyno deunydd.

Dosbarth	Sgiliau cyflwyno llafar
Cyntaf	Eithriadol. Mae'n cyflwyno'r gwaith i leygwr mewn ffordd eithriadol glir, cryno a dealladwy, gan ddefnyddio iaith anhechnegol a chynnal diddordeb. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn hunangynhwysol ac yn sefyll ar ei phen ei hun. Dangosir brwdfrydedd mawr tuag at y pwnc ac ymgysylltir yn llwyr â'r gynulleidfa. Atebir y cwestiynau yn fedrus ac yn glir. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn gwbl ddi-fai ac fe'i cyflwynir o fewn yr amser penodol. Mae'r cymhorthion gweledol yn syml, wedi'u trefnu'n dda, yn ddiddorol a heb wallau.
	Rhagorol. Mae'n cyflwyno'r gwaith i leygwr mewn ffordd glir, cryno a dealladwy ragorol, gan ddefnyddio iaith anhechnegol a chynnal diddordeb. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn hunangynhwysol ac yn sefyll ar ei phen ei hun. Dangosir brwdfrydedd tuag at y pwnc ac ymgysylltir â'r gynulleidfa. Atebir y cwestiynau yn fedrus ac yn glir. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn rhagorol, ac fe'i cyflwynir o fewn yr amser penodol. Mae'r cymhorthion gweledol yn syml, wedi'u trefnu'n dda, yn ddiddorol, a bron heb gamgymeriadau.

<p>Ail uwch (2:1)</p>	<p>Da. Mae'n cyflwyno'r gwaith i leygwr mewn ffordd sy'n dderbyniol glir, cryno a dealladwy, ac yn cynnal diddordeb. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn hunangynhwysol ac yn sefyll ar ei phen ei hun. Dangosir brwdfrydedd tuag at y pwnc ac ymgysylltir â'r gynulleidfa yn gyffredinol. Atebwr cwestiynau yn ddigonol. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith, o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn dda iawn, ac fe'i cyflwynir o fewn yr amser penodol yn gyffredinol. Mae'r cymhorthion gweledol, ar y cyfan, yn syml, wedi'u trefnu'n dda, ac yn ddiddorol, er gall fod ambell gamgymeriad ynddynt.</p>
<p>Ail is (2:2)</p>	<p>Digonol. Mae'n cyflwyno'r gwaith i leygwr mewn ffordd eithaf dealladwy, er bod peth jargon yn cael ei gynnwys. Nid yw'r wybodaeth a gyflwynir yn sefyll ar ei phen ei hun yn llwyr. Cyfyngir ar y brwdfrydedd a'r gallu i ymgysylltu â'r gynulleidfa. Gwneir ymdrech i ateb cwestiynau, er nad oes eglurder yn perthyn i'r atebion. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith, o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn dderbyniol ar y cyfan, ond gall y cyflwyniadau fod yn hwy neu'n fyrrach na'r amser a neilltuir. Mae'r cymhorthion gweledol yn dderbyniol, er gall fod nifer o gamgymeriadau ynddynt.</p>
<p>Trydydd</p>	<p>Fawr o deilyngdod. Mae'n cyflwyno'r gwaith i leygwr mewn ffordd aneglur, gan ddefnyddio iaith annigonol sy'n llawn jargon. Nid yw'r wybodaeth a gyflwynir yn sefyll ar ei phen ei hun. Ni cheir fawr o frwdfrydedd na gallu i ymgysylltu â'r gynulleidfa, ac mae'r atebion i'r cwestiynau yn amwys ac yn aneglur. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith, o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn wan ac mae'r cyflwyniadau'n sylweddol hwy neu'n sylweddol fyrrach na'r amser a neilltuir. Mae'r cymhorthion gweledol yn wan o ran y cynllun, trefn a chynnwys, ac mae nifer fawr o gamgymeriadau ynddynt yn ogystal.</p>
<p>Methu ar y ffin</p>	<p>Cyfyngedig iawn. Nid yw'n cyflwyno'r gwaith mewn ffordd eglur, ddatblygedig, a defnyddir llawer gormod o jargon. Nid yw'r wybodaeth a gyflwynir yn sefyll ar ei phen ei hun. Ni ddangosir brwdfrydedd a/neu nid ymgysylltir â'r gynulleidfa, ac mae'r atebion i gwestiynau yn gymysglyd neu'n cael eu hosgoi yn llwyr. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith, o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn wael iawn, ac mae'r cyflwyniadau'n sylweddol hwy neu'n sylweddol fyrrach na'r amser a neilltuir. Mae'r cymhorthion gweledol yn wael o ran y cynllun, trefn a chynnwys, ac mae gormod o gamgymeriadau ynddynt hefyd.</p>
<p>Methu'n wael</p>	<p>Ofnadwy o gyfyngedig. Mae'r gwaith yn aneglur iawn, a defnyddir llawer gormod o jargon. Nid yw'r wybodaeth a gyflwynir yn sefyll ar ei phen ei hun. Ni ddangosir brwdfrydedd ac nid ymgysylltir â'r gynulleidfa, ac mae ymdrechion i ateb cwestiynau yn gymysglyd ac yn amherthnasol. Mae'r modd y cyflwynir y gwaith, o ran y gosodiad a'r cyflymdra, yn eithriadol wael, ac ni wneir ymdrech i sicrhau bod y cyflwyniad yn cael ei glywed na'i ddeall. Mae'r cyflwyniadau'n sylweddol hwy neu'n sylweddol fyrrach na'r amser a neilltuir, ac mae'r cymhorthion gweledol yn eithriadol wael o ran y cynllun, trefn, a nifer y camgymeriadau.</p>

Dosbarth	Sgiliau cyflwyno poster
Cyntaf	Eithriadol. Yn ogystal â'r rhinweddau llafar cyffiniol, mae'r poster yn ddiddorol iawn yn weledol, wedi ei osod yn eithriadol dda gan ddefnyddio lliw a graffeg yn dda. Mae maint y ffont a'r lluniau yn briodol, a cheir cydbwysedd perffaith rhwng y testun a'r lluniau sydd wedi'u cyflwyno'n berffaith ac wedi'u labelu'n gywir. Mae llif a strwythur y poster yn rhagorol ac yn arwain at well dealltwriaeth ac ymgysylltu â'r prosiect.
	Rhagorol. Yn ogystal â'r rhinweddau llafar cyffiniol, mae'r poster yn ddiddorol iawn yn weledol, wedi ei osod yn ardderchog gan ddefnyddio lliw a graffeg yn dda. Mae maint y ffont a'r lluniau yn briodol, a cheir cydbwysedd da rhwng y testun a'r lluniau sydd wedi'u cyflwyno'n berffaith, bron ac wedi'u labelu'n gywir. Mae llif a strwythur y poster yn dda iawn ac yn arwain at well dealltwriaeth ac ymgysylltu â'r prosiect.
Ail uwch (2:1)	Da. Yn ogystal â'r rhinweddau llafar cyffiniol, mae'r poster yn ddiddorol yn weledol, wedi ei osod yn dda gan ddefnyddio lliw a graffeg yn dda. Mae maint y ffont a'r lluniau yn briodol, a cheir cydbwysedd rhwng y testun a'r lluniau sydd wedi'u cyflwyno'n dda a'u labelu'n gywir. Mae llif a strwythur y poster yn dda ac yn arwain at ddealltwriaeth ac ymgysylltu â'r prosiect.
Ail is (2:2)	Digonol. Yn ogystal â'r rhinweddau llafar cyffiniol, mae'r poster yn ddiddorol yn weledol, wedi ei osod yn eithaf da, gan ddefnyddio rhywfaint o gyferbyniad yn y lliwiau a defnyddio graffeg. Gallai maint y ffont a'r lluniau fod yn fwy addas, ac nid oes cydbwysedd llwyr rhwng y testun a'r lluniau. Mae'n bosibl fod ambell ffigur wedi'u labelu'n anghywir. Mae'r llif a'r strwythur yn arwain at gyfyngu ar y ddealltwriaeth a'r ymgysylltu â'r prosiect.
Trydydd	Fawr o deilyngdod. Yn ogystal â'r nodweddion llafar cyffiniol, nid yw'r poster yn ennyn fawr o ddiddordeb yn weledol, nid yw wedi ei osod yn ddigonol nac yn briodol, a cheir defnydd gwael o gyferbynnu lliwiau a graffeg. Mae maint y ffont a'r lluniau yn amhriodol, ac nid oes cydbwysedd rhwng y testun a'r lluniau. Mae'n bosibl fod y ffigurau wedi'u labelu'n anghywir, neu fod labeli ar goll. Nid yw'r llif a'r strwythur yn arwain at lawer o ddealltwriaeth ac ymgysylltu â'r prosiect.
Methu ar y ffin	Cyfyngedig iawn. Yn ogystal â'r nodweddion llafar cyffiniol, nid yw'r poster yn ddiddorol yn weledol, nid yw wedi ei gosod yn dda, ac nid oes cydbwysedd rhwng y testun a'r lluniau. Mae maint y ffont a'r lluniau yn arbennig o anaddas. Mae'r ffigurau wedi'u labelu'n anghywir neu'n absennol. Mae'r llif a'r strwythur yn amharu ar ddealltwriaeth ac ymgysylltu â'r prosiect. Mae gwybodaeth ar goll.
Methu'n wael	Ofnadwy o gyfyngedig. Yn ogystal â'r nodweddion llafar cyffiniol, nid yw'r poster yn ddiddorol o gwbl yn weledol, mae wedi ei osod yn wael, ac nid oes cydbwysedd rhwng y testun a'r lluniau. Mae maint y ffont a'r lluniau yn arbennig o anaddas. Mae'r ffigurau wedi'u labelu'n anghywir neu'n absennol. Mae'r llif a'r strwythur yn amharu'n llwyr ar ddealltwriaeth ac ymgysylltu â'r prosiect. Mae'r wybodaeth ar hap ac ar goll.

Blogs

Ar gyfer blogiau, dylai myfyrwyr hefyd gyfeirio at y canllawiau isod yn ychwanegol at y cyfarwyddyd ar gyfer gwaith ysgrifenedig.

Class	
	Blogiau
Cyntaf	Eithriadol. Yn ogystal â'r rhinweddau cyffiniol perthnasol, bydd y blogiau yn dangos safbwynt mynegiannol, cydlynus â ffocws eithriadol, sy'n cael ei gadarnhau gan enghreifftiau effeithiol i gefnogi'r achos, ac sy'n cynnig barn fyfyrion soffistigedig ar y pwnc. Mae'r postïadau yn greadigol ac wedi'u hysgrifennu'n rhugl, ac yn dyst i bersonoliaeth unigryw'r awdur sy'n dod â'r pwnc yn fyw. Mae'r postïadau felly yn hynod o effeithiol wrth ennyn deialog a sylwebaeth. Mae'r cyfraniadau at flogiau cymheiriaid yn gyson yn gadarnhaol, yn barchus, ac yn gryno, gan ychwanegu'n rhagorol at y drafodaeth.
	Rhagorol. Yn ogystal â'r rhinweddau cyffiniol perthnasol, bydd y blogiau yn dangos safbwynt mynegiannol, cydlynus â ffocws rhagorol, sy'n cael ei gadarnhau gan enghreifftiau effeithiol i gefnogi'r achos, ac sy'n cynnig barn fyfyrion dda ar y pwnc. Mae'r postïadau yn greadigol ac wedi'u hysgrifennu'n rhugl, ac yn dyst i bersonoliaeth unigryw'r awdur sy'n dod â'r pwnc yn fyw. Mae'r postïadau felly yn effeithiol iawn wrth ennyn deialog a sylwebaeth. Mae'r cyfraniadau at flogiau cymheiriaid yn gyson yn gadarnhaol, yn barchus, ac yn gryno, gan ychwanegu'n ystyrlon ac yn werthfawr at y drafodaeth.
Ail uwch (2:1)	Da. Yn ogystal â'r rhinweddau cyffiniol perthnasol, bydd y blogiau yn dangos safbwynt â ffocws cyffredinol, ac eto'n benodol, sy'n cael ei gadarnhau gan enghreifftiau i gefnogi'r achos, ac yn cynnig barn fyfyrion dda ar y pwnc. Mae'r postïadau yn gyffredinol yn greadigol ac wedi'u hysgrifennu'n dda, ac yn adlewyrchu rhai agweddau ar bersonoliaeth yr awdur sy'n helpu i ddod â'r pwnc yn fyw. Mae'r postïadau felly yn ceisio ennyn deialog a sylwebaeth. Mae'r cyfraniadau at flogiau cymheiriaid yn gadarnhaol, yn barchus, ac yn gryno ar y cyfan, ac yn ychwanegu rhywfaint o werth at y drafodaeth.
Ail is (2:2)	Digonol. Yn ogystal â'r rhinweddau cyffiniol perthnasol, bydd y blogiau yn dangos safbwynt cyfyngedig sy'n cynnwys y lleiafswm o enghreifftiau i gefnogi'r achos, gan gynnig mwy o grynodedd o'r pwnc na myfyrdod. Mae'r postïadau yn fyr ac yn ddi-ddychymyg, ac yn dangos yr ymdrech leiaf i gysylltu â'r gynulleidfa. Nid yw'r postïadau yn datgelu fawr o bersonoliaeth ac ni wneir fawr o ymdrech i ddod â'r pwnc yn fyw. Nid yw'r postïadau felly yn ennyn deialog a sylwebaeth. Nid yw'r cyfraniadau at flogiau cymheiriaid bob amser yn dangos parch at farn eraill, nac yn cynnig gwerth ychwanegol i'r drafodaeth.
Trydydd	Fawr o deilyngdod. Yn ogystal â'r nodweddion cyffiniol perthnasol, nid yw'r blogiau yn cynnwys safbwynt eglur ac ni cheir enghreifftiau i'w cefnogi, felly nid ydynt yn ychwanegu gwerth i'r pwnc. Mae'r postïadau wedi'u hysgrifennu'n llugoer ac yn ddigyswllt, heb ymwybyddiaeth o gyfathrebu effeithiol, a heb unrhyw bersonoliaeth. Mae'r cyfraniadau at flogiau cymheiriaid yn amharchus amlwg a negyddol, heb gynnig unrhyw werth i'r drafodaeth.
Methu ar y ffin	Cyfyngedig iawn. Yn ogystal â'r nodweddion cyffiniol perthnasol, nid yw'r blogiau, os oes, yn gwneud unrhyw ymdrech i ymgysylltu â'r pwnc nac yn cynnig enghreifftiau cefnogol. Mae'r postïadau wedi'u hysgrifennu ar hap ac yn ddi-ofal sy'n dyst i agwedd anghwrtais yr awdur at y dasg a'r sawl fydd yn ei darllen. Mae'r cyfraniadau at flogiau cymheiriaid yr un mor ddi-ofal; mae'r blogiau yn annerbyniol amharchus a negyddol, gan wneud cyfraniad niweidiol at y drafodaeth.
Methu'n wael	Ofnadwy o gyfyngedig. Mae'r blogiau ar goll neu yn anghyflawn. Ni cheir sylwadau nac ymdrech i ymgysylltu â blogiau cymheiriaid.

Adborth

Gofynion y Brifysgol yw bod adborth ar gyfer gwaith cwrs yn cael ei ddarparu o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cyflwyno. Os oes oedi am resymau eithriadol na ellir eu hosgoi, byddwch yn cael eich hysbysu ac yn derbyn amserlen ddiwygiedig ar gyfer dychwelyd yr asesiad o dan sylw.

Mae'r Brifysgol yn arfer yr Egwyddorion Adborth Effeithiol isod o ran gwaith y myfyrwyr:

- (i) Dylai'r adborth fod yn dryloyw, er mwyn i'r myfyrwyr allu ei ddeall a'i gysylltu â'r meini prawf asesu.
- (ii) Dylai'r adborth helpu'r myfyrwyr i weld beth yw eu cryfderau a ble y mae angen iddynt wella.
- (iii) Dylai'r adborth fod yn gymesur ac yn briodol i'r math o asesiad, yr amseru a maint y dosbarth.
- (iv) Dylai fod gan y myfyrwyr wybodaeth glir a hygyrch am y mathau o asesiadau a natur ac amseriad yr adborth a gânt ar gyfer pob math o asesiad.
- (v) Mae gan y myfyrwyr hawl i ofyn am eglurhad ar y marciau, i'w helpu i ddeall yr hyn a wnaethant yn dda a'r hyn na wnaethant cystal, a sut y gallant wella.

Ffyrdd Adborth

Eifen	Sut byddwn yn cyflwyno eich adborth
Gwaith cwrs	Bydd eich gwaith cwrs, a all gynnwys, er enghraifft, draethodau, adroddiadau ymarferol, blogiau, wicis neu ddyddiaduron, yn cael ei farcio a'i anodi gan staff. Mae'r adborth yno ichi ei ddarllen ac, mewn ambell achos, i wrando arno, gan ein bod yn aml yn defnyddio adborth sain, gan recordio'r adborth i'ch sgriptiau yn electronig. Ym mhob achos lle byddwch yn dymuno eglurhad pellach, trefnwch apwyntiad ac fe gewch adborth personol.
Arholiadau	Mae adborth ar eich perfformiad yn yr arholiadau ar gael gan arweinydd y modiwl all drafod eich perfformiad gyda chi ac ateb cwestiynau, yn ôl y gofyn.
Adborth yn ystod sesiynau dysgu	Mae rhywfaint o'r adborth yn help i egluro pam y cawsoch y marc penodol hwn a'r gobaith yw y gallwch ddefnyddio hyn i ddatblygu eich gwaith yn y dyfodol. Gelwir hyn yn adborth ar waith Cyfunol. Ar ben hynny, mae gennym adborth Ffurfiannol, sy'n eich helpu i ddeall yn syth sut i ddatblygu ac a ddaw ar ffurf atebion a roddir yn y dosbarth a sesiynau dysgu gan staff
Tiwtorialau drwy gydol y flwyddyn, neu ar eich cais chi	Fan hyn, gall staff roi adborth ar eich perfformiad cyffredinol, ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych a darparu cyngor defnyddiol. Mae adborth o'r fath yn bwysig iawn i'ch datblygiad yn y Brifysgol.

Arholwyr Allanol

Mae Arholwyr Allanol yn allweddol o ran helpu i gynnal safonau academiaidd a goruchwylio'r broses asesu. Mae'r Brifysgol yn penodi Arholwyr Allanol ar gyfer pob darpariaeth sy'n arwain at ddyfarniad gan Brifysgol Aberystwyth.

Mae Arholwyr Allanol yn sicrhau bod asesiadau wedi eu cynnal mewn modd teg a chyson a bod y safonau'n cyd-fynd â sefydliadau addysg uwch eraill y DU a/neu safonau cyrff proffesiynol perthnasol. Mae'r Arholwyr Allanol yn cyflawni nifer o dasgau a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, Pennod 4 Arholi Allanol: (<https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/ext-exam>).

Mae'r rhain yn cynnwys cymeradwyo asesiadau Arholwyr Mewnol, edrych ar samplau o ddeunydd asesu, edrych ar samplau o waith wedi'i asesu a chymeradwyo argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Arholi. Mae Arholwyr Allanol hefyd yn darparu adroddiadau ysgrifenedig ar y broses asesu ac ar safonau cyflawniad y myfyrwyr ac fe'u cyhoeddir ar fodiwlau'r adrannau ar y Bwrdd Du AberLearn. Mae'r adroddiadau'r Arholwyr Allanol yn cael eu hystyried gan y Brifysgol, ac mae'r Bwrdd Academiaidd yn gyfrifol am oruchwylio'r adroddiadau a'r drefn arholwyr allanol yn ei chyfanrwydd.

Cyhoeddir enwau Arholwyr Allanol yn yr adran 'proffiliau staff' ar dudalennau gwe'r adrannau academaidd. Cyhoeddir Adroddiadau Blynyddol yr Arholwyr Allanol, ynghyd ag ymatebion yr adrannau, ar y Bwrdd Du, ac y maent ar gael i fyfyrwyr.

Mae'n rhaid i Arholwyr Allanol fod yn ddi-duedd ar bob achlysur, ac nid ydynt yn gwneud addasiadau dewisol i farciau myfyrwyr unigol. **Ni** ddylai myfyrwyr gysylltu ag Arholwyr Allanol. Dylid gwneud cais am eglurhad o farc amodol mewn aseiniad trwy drefniadau adborth arferol yr adran academaidd, neu trwy weithdrefnau apelio'r Brifysgol os yw marc terfynol y modiwl wedi ei gadarnhau.

Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yw cyflawni unrhyw weithred lle gall unigolyn sicrhau mantais na chaniateir iddo ef/iddi hi ei hun neu i rywun arall. Bydd y Rheoliad hwn yn berthnasol, pan ddeallir bod myfyriwr wedi cyflawni Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, beth bynnag fo bwriad y myfyriwr a chanlyniad y weithred, a phan fo'r myfyriwr yn gweithredu ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unigolyn arall/unigolion eraill. Gellir cynnwys unrhyw weithredoedd yn y diffiniad hwn, boed hwy'n digwydd yn ystod neu mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, cyflwyno tystiolaeth feddygol neu fel arall i Fyrddau Arholi, neu unrhyw fath ar asesiad a wneir wrth ymgeisio am gymhwyster Prifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y dosbarthiadau canlynol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol. Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr, a gellir cynnwys achosion eraill o fewn i ddiffiniad cyffredinol Ymddygiad Academaidd Annerbyniol:

- **Llên-ladrad:** Diffinnir llên-ladrad fel defnyddio gwaith rhywun arall a dweud mai eich gwaith eich hun ydyw, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol.

Mae enghreifftiau o llên-ladrad yn cynnwys:

- defnyddio dyfyniad heb ddefnyddio dyfynodau
 - copïo gwaith person arall
 - cyfieithiad heb ei gydnabod o waith person arall
 - aralleirio neu addasu gwaith rhywun arall heb gydnabyddiaeth ddyledus
 - defnydd heb ei gydnabod o ddeunydd a lawrlwythwyd o'r rhyngwyd
 - defnyddio deunydd a gafwyd gan fanciau traethawd neu asiantaethau tebyg
- **Cydgynllwynio:** Mae cydgynllwynio yn digwydd os yw gwaith a wnaed gan neu gydag eraill yn cael ei gyflwyno fel gwaith un person yn unig. Os yw gwaith un neu fwy o bobl yn cael ei gyflwyno yn enw eraill ac os yw awdur(on) y gwaith gwreiddiol yn gwybod am hyn, gellir ystyried bod yr holl gydgynllwynwyr wedi cyflawni Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

- **Ffugio tystiolaeth neu ddata:** Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata o'r fath mewn gwaith a asesir yn cynnwys gwneud honiadau ffug ynghylch cynnal arbrofion, arsylwadau, cyfweiliadau neu fathau eraill ar gasglu a dadansoddi data. Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata hefyd yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ynghylch amgylchiadau arbennig i Fyrddau Arholi neu Baneli Apêl sy'n ffugio neu wedi'i ffugio.
- **Enghreifftiau o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol dan amodau arholiad ffurfiol:** Cyflwyno i ystafell arholi a/neu gyfleusterau cysylltiedig unrhyw fath o ddeunydd anawdurdodedig, megis llyfr, llawysgrif, data neu bapurau rhydd, gwybodaeth a gafwyd trwy gyfrwng unrhyw ddyfais electronig, neu unrhyw ffynhonnell wybodaeth anawdurdodedig, heb ystyried a yw'r deunydd yma yn berthnasol i'r pwnc dan sylw ai peidio.
- **Ailgylchu data neu destun:** Ailgylchu data neu destun mewn mwy nag un asesiad, pan fo'r Athrofa neu'r Adran wedi peidio â chaniatáu hynny yn bendant.

Mae'r Rheoliad llawn ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ar gael yn adran 3.6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, [Ymddygiad Academaidd: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/](https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/). Gall canlyniadau penderfyniad bod Ymddygiad Academaidd Annerbyniol fod yn ddifrifol, a gallai hyn effeithio gallu myfyriwr i symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf neu gwblhau gradd. Bydd cosbau yn cael eu pennu ar sail system bwyntiau: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/uap-points>

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch arfer academaidd da a chyfeirnoddi ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/>. Os nad ydych yn siŵr, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch adran academaidd i gael rhagor o arweiniad.

Adran E: Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau

Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau

Defnyddir Confensiynau Arholiadau i bennu a gaiff myfyrwyr symud ymlaen rhwng blynyddoedd astudio ar gyfer gwahanol fathau o ddyfarniadau ac i bennu dosbarth y radd ar ddiwedd cynllun gradd. Dylid darllen y Confensiynau ar y cyd â'r Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd. Gellir dod o hyd iddynt yn adran 4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/>).

Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch asesiad cynlluniau astudio trwy gwrs, megis amgylchiadau arbennig, arholiadau a'r prosesau marcio.

Gall y Brifysgol ddyfarnu un o'r dyfarniadau ymadael canlynol os yw myfyrwyr heb lwyddo i gael y credydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu gradd Baglor gydag anrhydedd. Dyfernir y cymwysterau ymadael hyn heb ddsbarth.

- Y Radd Gyffredin (BA / BSc heb anrhydedd)
- Diploma Addysg Uwch (Dip HE)
- Tystysgrif Addysg Uwch (Cert HE)

Ceir gwybodaeth ychwanegol am ddyfarniad Graddau Cyffredin yn adran 4.6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith

Ailsefyll

Os ydych yn methu modiwl ac angen ailsefyll, bydd eich adran academaidd yn rhoi gwybod pa elfennau y bydd yn rhaid i chi eu hailsefyll. Bydd angen hefyd i chi gofrestru er mwyn ailsefyll.

Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â chofrestru i ailsefyll ar wefan y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion: <https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/students/ug-issues/>.

Ceir manylion ynglŷn â ffurff asesiadau ailsefyll yn y bas data modiwlau:

<http://www.aber.ac.uk/cy/modules/> . Fel arfer, bydd ailsefyll yn golygu ailwneud yr asesiadau (e.e. traethawd, arholiad) a fethwyd ar yr ymgais gyntaf.

Mae dyddiadau cyfnod ailsefyll yr haf ym mis Awst ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/students/ug-issues/resits/summer-resit-assessments/> .

Mae colli arholiadau mis Awst o ganlyniad o wyliau, ymrwymadau gwaith neu wrthdaro arall yr allech chi osgoiddim yn cael eu derbyn fel rhesymau cyfreithlon am absenoldeb. Felly, mae'n hanfodol rydych chi'n cadw'r ddwy wythnos diweddfaf o Awst rhydd o bob ymrwymadau eraill nes i chi gwybod os bydd rhaid i chi gymryd arholiadau ailsefyll.

Ymhellach, mae'r adran Seicoleg yn argymhellu'n gryf i myfyrwyr sydd gyda marciau fethiant yn fodiwlau Lefel 2 (dangosyddion F a H), ei ailsefyll nhw yn y cyfnod arholiad atodol cyn dechrau'r drydedd flwyddyn. Gall methiant i wneud hynny yn arwain atoch chi fethu'n gymwys ar gyfer eich gradd os rydych chi'n cronni credydau methiant ychwanegol yn fodiwlau Lefel 3 yn ystod eich trydedd flwyddyn.

Nodwch dydy e ddim yn bosib ail-gymryd unrhyw fodiwl rydych chi wedi'i phasio (marc o 40 neu mwy), hyd yn oed os cafodd eich perfformiad ei anfantaiseio trwy resymau meddygol neu amgylchiadau arbennig arall. Nid yw'n bosib ail-gymryd modiwlau wedi'i fethu er mwyn gwella marc gradd derfynol os mae'r cymhwyster o radd wedi ei fodloni, ac eithrio lle mae modiwl wedi'i ddyfarnu dangosydd 'H'. Gall modiwlau wedi'i fethu ddim fel arfer bod yn amnewid gyda modiwlau newydd. Os mae yna unrhyw ansicrwydd ar gyfer ailsefyll, cysylltwch ag eich Tiwtor Personol am gyngor yn y lle cyntaf.

Trefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir trwy Gwrs

Diffinnir apêl academaidd fel 'cais i adolygu penderfyniad corff academaidd sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â chynnydd myfyrwyr, asesiadau a dyfarniadau.'

Rhaid i'r apêl fod yn seiliedig ar un neu ragor o'r rhesymau isod er mwyn cael ei hystyried a rhaid darparu tystiolaeth ategol nad oedd ar gael i'w chyflwyno i'r Bwrdd Arholi perthnasol:

- Amgylchiadau esgusodol eithriadol a gafodd effaith andwyol ar berfformiad academaidd y myfyriwr. Lle gallai'r myfyriwr fod wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Arholi am yr amgylchiadau eithriadol cyn iddo gwrdd, ni cheir cyflwyno'r amgylchiadau hynny'n sail dros apelio yn ddiweddarach.
- Diffygion neu afreolaidd-dra yn y ffordd y cynhaliwyd yr asesiadau, neu'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu'r cyngor yn eu cylch, lle gellir cyflwyno achos i ddangos y gallai diffygion, afreolaidd-dra neu gyngor o'r fath fod wedi cael effaith andwyol ar berfformiad y myfyriwr.
- Tystiolaeth o ragfarn, neu o duedd, neu o asesu annigonol gan un neu ragor o'r arholwyr.

Ni chaiff yr apêl ei hystyried oni all y myfyriwr ddarparu rhesymau da pam na roddwyd gwybod i'r Brifysgol yn gynt am y rhesymau dros apelio a/neu pam na chafodd y Bwrdd Arholi perthnasol wybod amdanynt. Ni ystyrir apeliadau sy'n amau barn academaidd.

Cyn gwneud apêl, rhaid i chi ddarllen, yn ei chyfanrwydd, y Drefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir drwy Gwrs, sydd ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/appeals/>

Holwch y Gofrestrfa Academaidd (caostaff@aber.ac.uk) neu Gynghorydd Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr (undeb.cyngor@aber.ac.uk) am gyngor ynglŷn â'r weithdrefn hon.

Y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrrwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i sicrhau profiad addysgol o ansawdd uchel i'w holl fyfyrwyr, a hynny gyda chefnogaeth gwasanaethau a chyfleusterau academaidd, gweinyddol a lles priodol. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd myfyrwyr yn anfodlon ar y gwasanaethau neu'r cyfleusterau dysgu ac addysgu a ddarperir. Cred Prifysgol Aberystwyth y dylai myfyrwyr fod â hawl i gael system effeithiol ar gyfer delio â chwynion ac y dylent deimlo y gallant wneud cwyn, yn sicr eu meddyliau y bydd ymchwiliad teg i'r gwyn honno.

Mae Trefn Gwyno Myfyrwyr y Brifysgol ar gael am:

<https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/complaints>

Adran F: Cymorth Myfyrwyr a Gwasanaethau Lles

Canolfan Croesawu Myfyrwyr

Mae'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr yn cynnwys y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian; y Gwasanaeth Lles a'r Gwasanaeth Hygyrchedd a dyma eich siop un stop ar gyfer cyngor a gwybodaeth ar bob math o gymorth.

Ein Desg Groeso yw'r lle cyntaf y dylech chi alw gydag ymholiadau cyffredinol am y gwasanaethau hyn ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau, 9am–5pm a dydd Gwener, 9am–4pm.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/>

Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth ac atgyfeirio ar amrywiaeth eang o faterion. Os nad ydych chi'n siŵr ble i fynd am gyngor neu gymorth cysylltwch â ni. Does dim problem yn rhy fawr nac yn rhy fach. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, heb feirniadaeth, ac am ddim. Mae gennym wasanaeth galw heibio yn ystod yr wythnos (manylion ar y wefan) neu gallwch drefnu apwyntiad gydag Ymgynghorydd Myfyrwyr drwy gysylltu â'r Ddesg Croesawu Myfyrwyr.

Mae'r ymgynghorwyr myfyrwyr wedi'u hachredu gyda Chymdeithas Genedlaethol yr Ymgynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) ac maen nhw'n gallu cynnig cyngor proffesiynol ar reoli arian neu unrhyw broblemau gyda Chyllid Myfyrwyr. Hefyd gallan nhw gynnig cyngor ac arweiniad ar unrhyw ymholiadau'n ymwneud â llety, cynnydd academiaidd, gweithdrefnau'r Brifysgol neu gymhwyster ar gyfer cronfeydd caledi.

Y Gwasanaeth Hygyrchedd

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a'r rheini sydd ag anawsterau dysgu penodol, gan eu hystyried ar yr un sail academiaidd ag ymgeiswyr eraill. Rydym ni'n eich cynghori i ystyried, cyn ymgeisio, y gofynion ar gyfer eich dewis o gwrs, gan nodi unrhyw elfennau a allai beri anhawster penodol. Rydym ni'n argymhell eich bod yn ymweld â champws y Brifysgol a'ch dewis adran i holi am y cymorth a allai fod ar gael, gweld y cyfleusterau a thrafod anghenion penodol.

Mae ein Hymgyngorwyr Hygyrchedd yn hapus i helpu cyn i chi ymgeisio. Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'ch adran a'n hymgyngorwyr cyn gynted â phosib gan y gallai gymryd peth amser i drefnu addasiadau a chymorth. Rydym ni hefyd yn argymhell eich bod yn cysylltu â'n Hymgyngorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad o anghenion astudio a chael cyngor ar grantiau,

fel y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA). Gall ein hymgyngorwyr drefnu gweithwyr cymorth, gan gynnwys er enghraifft cymorth sgiliau astudio un i un a mentora. Gall trefniadau arholi unigol fod ar gael i fyfyrwyr sydd ag amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol fel dyslecsia a dyspracsia.

Mae ein Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd yn cynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal a gall drefnu cymorth gan fentoriaid cymheiriaid i fyfyrwyr sy'n ei chael yn heriol i ymgartrefu yn y Brifysgol.

Gwasanaethau Lles Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o faterion iechyd, gan gynnwys lles emosiynol a rhywiol, ac mae'n cynnwys cymorth ar gyfer iechyd meddwl a darpariaeth cwnsela. Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn ychwanegol i'ch meddyg teulu, ac nid yn lle'r gwasanaeth hwnnw. Er ein bod yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu lleol a'r gwasanaethau ysbyty i sicrhau eich bod yn cael gofal da a sylw pan fo angen, mae'n bwysig eich bod yn cofrestru gyda phractis meddyg teulu lleol pan fyddwch yn cyrraedd Aberystwyth. Mae'r gwasanaethau ar gael o ddydd Llun i ddydd Iau, 9am–4.30pm a dydd Gwener, 9am–4pm.

Yn ogystal â'r gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, mae cymorth hefyd ar gael trwy'r canlynol:

Cymorth Dysgu i Fyfyrwyr a'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg

Mae Cymorth Dysgu i Fyfyrwyr a'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau israddedig, cyrsiau sgiliau ysgrifennu a gwybodaeth israddedig ac uwchraddedig am ddim ac ymgynghoriadau unigol ar gyfer cymorth ysgrifennu ac iaith. Mae'r rhain ar gael i'r holl fyfyrwyr yn y brifysgol sy'n astudio cyrsiau gradd. Ceir rhagor o wybodaeth yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/> a

<https://www.aber.ac.uk/en/international-english/>

Y Swyddfa Ryngwladol

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn cynnig amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau i fyfyrwyr rhyngwladol o drefnu digwyddiadau croesawu i gyngor arbenigol ar fewnfudo. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalennau rhyngwladol <https://www.aber.ac.uk/en/international/>.

Cyngor ar Fisas a Mewnfudo

Gall ein Hymgyngorydd Myfyrwyr Rhyngwladol helpu gyda phob math o geisiadau am fisas astudio, fisas Schengen i'r rheini sy'n teithio i Ewrop yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion mewnfudo eraill. Cysylltwch â immigrationadvice@aber.ac.uk.

Gwibdeithiau'r Swyddfa Ryngwladol

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn trefnu rhaglen gymdeithasol sy'n caniatáu i fyfyrwyr fwynhau gwibdeithiau a digwyddiadau drwy'r flwyddyn. Trefnir gwibdeithiau diwrnod i fannau ar draws Cymru ar y penwythnos, fel Caerdydd, Tyddewi, Portmeirion a Chastell Harlech. Rydym ni hefyd yn cynnig gwibdeithiau prynhawn byr i fannau prydferth sy'n agos i Aberystwyth, ac yn y gorffennol wedi cynnwys ymweliadau ag Aberaeron, Nant Yr Arian a Chwm Elan. Mae'r teithiau i gyd yn gost isel ac yn gyfle i'n myfyrwyr fwynhau ymweld â llefydd y tu allan i Aberystwyth a chwrdd â ffrindiau newydd. Mae croeso i'r holl fyfyrwyr ar y teithiau, o Brydain a rhyngwladol, ac maen nhw'n boblogaidd iawn felly argymhellir eich bod yn archebu'n gynnar i osgoi siom.

Wythnos Un Byd

Digwyddiad blynyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth yw Wythnos Un Byd sy'n dathlu diwylliant amrywiol ein prifysgol. Mae dathliadau blaenorol wedi cynnwys Noswaith Gala Un Byd, gyda dawnsio a cherddoriaeth draddodiadol, trafodaethau gwleidyddol, prynhawniau ffilm rhyngwladol a Ffair y Byd gyda samplau bwyd a diod o wledydd y myfyrwyr, a bwydlenni traddodiadol a weinir ym mwyty'r Brifysgol, Tamed Da. Digwyddiad dan arweiniad y myfyrwyr yw hwn mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr ac mae angen eich cyfraniad chi! Cynhelir cyfarfodydd i drefnu Wythnos Un Byd o fis Hydref ymlaen felly dewch i ymuno a gwneud yn siŵr fod pawb yn cael rhannu eich gwlad a'ch diwylliant.

Darpariaeth Halal

Mae ein sefydliadau arlwyo'n cynnig detholiad o fwydydd poeth ac oer sy'n addas ar gyfer diet Halal. Mae'r holl fwyd wedi'i farcio er hwylustod.

Mannau aml-ffydd ac ystafell weddïo

Mae man ffydd ar gael i weddïo ar Gampws Penglais, yn y Ganolfan Ffydd yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr

Yng Ngwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr ceir cyngor cyfrinachol, annibynnol am ddim i holl fyfyrwyr Aberystwyth. Mae Ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr yn staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gallu eich helpu gydag amrywiaeth o faterion gan arbenigo mewn darparu cyngor a chymorth ar brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Gall Ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr hefyd weithredu fel eiriolwr annibynnol ar eich rhan mewn cyfarfodydd a gwrandawiadau.

Gallwch alw heibio i siarad ag Ymgynghorydd - holwch yn nerbynfa Undeb y Myfyrwyr neu ewch at y swyddfeydd cefn ar y llawr daear neu gallwch gysylltu â ni ar-lein neu drwy ebost: union.advice@aber.ac.uk. Edrychwch ar [Abersu.co.uk/advice](https://www.abersu.co.uk/advice) am ragor o fanylion.

Cymorth Llety

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau yn eich ystafell neu fflat, e.e. rydych wedi cloi'ch hun allan, nid ydych yn teimlo'n dda, mae angen atgyweirio rhywbeth, neu fod gennych broblem â chymydog, mae gennym staff ar gael 24 awr y dydd i'ch helpu. Mae'r Tîm Preswylfeydd yn gyfrifol am yr holl Breswylfeydd, gallwch gysylltu hefyd â'n porthorion cyfeillgar y tu allan i'r oriau swyddfa. Am fwy o wybodaeth, gweler:

<https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/living-residences/help/>

Cynorthwyr Preswyl

Mae'ch Cynorthwyydd Preswyl yn gyd-fyfyrwyr sydd yma i roi cymorth ac arweiniad, gan anelu at greu amgylchedd byw a dysgu cadarnhaol ac i feithrin ymdeimlad o gymuned ar draws y Brifysgol. Gall hyn gynnwys cyngor ar ddatrys dadleuon fflatiau, ar sut i guro straen arholiadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau, gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ardal, neu ble i ddod o hyd i'r cwpan gorau o goffi yn Aber! Os nad ydynt yn gallu helpu, byddant yn eich cyfeirio at rywun sy'n gallu bod o gymorth.

Trwy gydol y flwyddyn, bydd eich tîm Cynorthwyr Preswyl yn trefnu digwyddiadau preswyl bach yn y mannau cymunedol o amgylch eich llety, yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd ac efallai roi cynnig ag rywbeth newydd. Byddant yn galw i mewn i'ch fflat neu dŷ yn rheolaidd i weld eich bod yn iawn, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd o amgylch y campws ac yn eich llety, a holi a oes gennych unrhyw bryderon lle y gallant helpu.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/living-residences/help/>

Adran G: Gwybodaeth y Brifysgol Israddedigion

Mae gwybodaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr israddedig ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/student/ug-issues/> ac mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth ynghylch Arholiadau ac Asesiadau
- Gwybodaeth ynghylch Ailsefyll a Ffioedd Ailsefyll
- Gwybodaeth ynghylch Cofrestru
- Cymorth Ariannol
- Rheolau a Rheoliadau
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd

Pob hwyl i chi gyda'ch astudiaethau!